



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	3
Adroddiad Perfformiad	4
Trosolwg.....	4
Dadansoddiad o Berfformiad.....	11
Adroddiad Atebolrwydd.....	26
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	26
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	26
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	33
Datganiad Llywodraethu	34
Adroddiad Tâl a Staff (archwiledig)	42
Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio (archwiledig)	51
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ..	52
Datganiadau Ariannol	55
Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol	89


Rhagair y Cadeirydd

Braint aruthrol yw gofalu am gyfoeth naturiol Cymru, a'i reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn i'n bywyd gwyllt a'n pobl allu ffynnu. Wrth gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon, caf gyfle i ddiolch yn ffurfiol ac yn bersonol, ar ran y Bwrdd, i'n holl staff am y gwaith bendigedig a wnânt bob dydd i sicrhau hyn. Mae doniau ac ymrwymiad ein pobl fedrus iawn yn gwneud cyfraniad enfawr at Gymru, nid yn unig at yr amgylchedd ond at ein Hamcanion Llesiant ehangach, ac at ddatblygiad parhaus ein sefydliad.

Nid wyf yn amau na fydd hyn yn parhau. Mae gennym wir gyfle i chwyldroi'r ffordd y rheolwn yr amgylchedd naturiol ar sail y fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, i reoli adnoddau naturiol mewn modd gwahanol, mwy cynaliadwy. Anelu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd bellach wrth wraidd ein gwaith, yn enwedig wrth weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru.

Yn ystod ein hymweliadau lawer â safleoedd, prosiectau (fel Llynfi isod), a'n cyfarfodydd â phartneriaid, rydyn ni'r aelodau Bwrdd wedi'n syfrdanu gan holl gymhlethdod a graddfa CNC a'r materion y byddwn yn ymdrin â hwy. Mae gennym 1,855 o bobl yn gweithio ledled Cymru sydd wrthi'n helpu i leihau risg llifogydd a llygredd i bobl ac eiddo, yn gofalu am fannau arbennig ar gyfer llesiant, bywyd gwyllt a choed, ac yn ailfodelu ein sefydliad i fod yn addas at y dyfodol a'n ffyrdd newydd o weithio. Deallaf yn iawn sut y gall y cymhlethdod hwn arwain at rwystredigaeth i'n cwsmeriaid, ein partneriaid ac, ar adegau, ein pobl ni ein hunain. Cymerwn hyn o ddifrif ac, wrth inni symud ymlaen â'n rhaglen newid, byddwn yn parhau i ymgysylltu a chyfathrebu â chi i sicrhau ein bod yn agored ac yn atebol am ein penderfyniadau a'r camau a gymerwn.

Serch hynny, nid yw'r ffordd ymlaen yn sicr eto. Disgwyliwn Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi'r ffocws inni ar gyfer ein hymagwedd at Ddatganiadau Ardal, a chyfeiriad ein Cynllun Corfforaethol nesaf. I'r un graddau, fy mlaenoriaeth i fy hun yw penodi Prif Weithredwr newydd i olynu Dr Emyr Roberts a fydd, ar ôl pum mlynedd gyda CNC, yn ymddeol yn yr hydref. Trwy'r adeg, mae ein rhaglen newid sefydliadol yn parhau i sicrhau ein bod yn addas at y dyfodol. Rydym ar y trywydd cywir i gyflenwi ein map ffordd cychwynnol erbyn 2020 ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid wrth inni arwain y ffordd tuag at reoli cynaliadwy ein holl adnoddau naturiol, a hynny mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, er lles Cymru yn y dyfodol.



Diane McCrea MBE
Cadeirydd



Adroddiad Perfformiad

Trosolwg

Dros y tudalennau canlynol, byddwn yn cynnig safbwynt ein Prif Weithredwr am ein perfformiad eleni, yn amlinellu diben ein sefydliad a'n prif rolau a chyfrifoldebau, ac yn egluro sut cyflawnwyd ein hamcanion eleni.

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf allu rhoi gwybod am flwyddyn lwyddiannus arall. Gwnaethom gynydd mawr o ran cyflawni ein hamcanion uniongyrchol, ac o ran newid cyfeiriad ein gwaith ar sail ein diben newydd o reoli cyfoeth naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Sicrhawyd ein holl gyflawniadau gan ein staff ymroddedig, sydd wedi rheoli eu gwaith pob dydd yn broffesiynol iawn yn ogystal â chroesawu'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gennym. Rwy'n ddiolchgar i bawb am ei waith caled yn ystod y flwyddyn.

Mae ein Hadroddiad cyntaf am Gyflwr Adnoddau Naturiol wedi darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i'n helpu oll i agor cynifer o gyfleoedd â phosibl o ran sut byddwn yn gofalu am amgylchedd Cymru ac yn ei ddefnyddio. Mae ein Datganiad Llesiant yn disgrifio ein hymrwymiad penodol ein hunain at y dyfodol.

Yn allweddol, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar waith bellach ac mae'n fraint gennym fod yr unig sefydliad a gynrychiolir ar bob un ohonynt. Rydym mewn sefyllfa unigryw felly i helpu i ddatblygu blaenoriaethau'r holl Fyrddau a'r cyfraniad a wnânt at eu rhan o Gymru, mewn modd sy'n hyrwyddo'r amgylchedd.

Yn ein gweithgareddau pob dydd, rydym wedi parhau i wneud bywydau pobl yn fwy diogel ac iach, a sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, a hynny gan gyfrannu at ein cymunedau a datblygu'r economi. Mae ein prosiect Llethrau Iach (gweler t15) yn arddangos y mathau o fuddion lluosog a geisiwn yn ein ffordd o weithio; mae llawer iawn o enghreifftiau eraill, a diolchwn i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda ni am wneud i'r pethau arbennig ddigwydd.

O ran ein perfformiad cyffredinol, rydym wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'n hamcanion am y flwyddyn, ond mae rhai meysydd lle mae heriau'n parhau a bydd angen inni weithio'n wahanol gyda'n partneriaid yn y dyfodol yn hynny o beth er mwyn inni wneud cynnydd.

Un rhwystredigaeth benodol yw cymaint o adnoddau y mae'n rhaid inni eu cymhwyso i ymdrin â digwyddiadau amgylcheddol fel tanau gwastraff a llygredd amaethyddol. Byddai'n llawer gwell gennym fod yn cymhwyso'r un adnoddau hynny i greu buddion mwy cadarnhaol i'r amgylchedd. Ond gwyddom yn union pa mor bwysig fydd ein partneriaid i'n helpu i ddod o hyd i atebion.

Roedd y flwyddyn ddiwethaf yn arbennig o heriol am fod ein dyraniad ariannol wedi lleihau, a chredaf ein bod wedi perfformio'n eithriadol o dda a chynnal safonau gwasanaeth er gwaethaf y mesurau cyni a gymhwyswyd inni.

Rydym yn parhau i weithio drwy'r materion a nodwyd yn ein Harolwg Pobl 2016, a chawsom gyfraniad sylweddol gan ein Grŵp Pobl a Thimau, a sefydlwyd i ymateb i'r

materion, sydd oll wedi ymrwymo i wneud CNC yn lle gwell i weithio. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatrys Gwerthuso Swyddi ac i ddatblygu sefydliad sy'n addas at y dyfodol.

Hwn yw fy natganiad blynyddol olaf i CNC oherwydd byddaf yn gadael fy swydd yn yr hydref. Bu'n fraint aruthrol imi arwain y corff drwy ei ddyddiau cynnar, ac ymfalchïaf yn fawr yn hwn. Ysbrydoliaeth bur fu gweld y gwaith caled a'r brwdfrydedd a ddangoswyd gan ein staff i bontio'n un sefydliad, yn ogystal â datblygu dulliau newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â siwrnai CNC hyd yma, yn enwedig fy nghydweithwyr innau, a dymunaf y gorau posibl iddynt am y dyfodol.



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu




Corff a Ariennir gan Lywodraeth Cymru ydym ni, a grëwyd i **sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy**. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu un sefydliad sy'n dod ynghyd â llawer o'r arfau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol yn gydlynol. Gallwn gyflawni llawer mwy drwy gyfuno ein gwybodaeth a'n gwasanaethau er mwyn iddynt gydweithio i sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y ffordd y byddwn yn cydweithio, gan fyw ein gwerthoedd i greu Cymru well.

Er bod ein hamgylchedd yn werth £8 biliwn i economi Cymru, credwn ei bod yn bosibl datgloi llawer mwy i'r bobl, y cymunedau a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae gennym y gallu i addasu i anghenion newidiol cymdeithas yn gyflym, gan ddarparu gwell gwasanaethau, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, a ffurfio partneriaethau cryf.

Roedd themâu ein cynllun corfforaethol cyntaf yn arddangos y buddion lluosog y mae ein gwaith yn eu creu i amgylchedd, economi a chymunedau Cymru. Roeddent hefyd yn cefnogi ein cyfres gyntaf o ganlyniadau yr oeddem yn eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru:

- Gwella ein hamgylchedd
- Diogelu pobl
- Cefnogi menter a swyddi
- Gwella iechyd y genedl
- Lleoedd llewyrchus llawn addewid
- Sicrhau cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth

Rydym yn gweithio bellach i gyrraedd Nodau Llesiant Cymru y byddwn yn cyfrannu atynt drwy ein Hamcanion Lles newydd a Chynllun Corfforaethol nesaf 2017-2022.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ein rolau allweddol a'u cyfrifoldebau...

Cynghori

y prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru, a'r cynghorydd i ddiwydiant a'r cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol, a chyfathrebwr am faterion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'i gyfoeth naturiol

Rheoleiddio

gwarchod pobl a'r amgylchedd gan gynnwys y diwydiannau morol, coedwig a gwastraff, ac erlyn y rheini sy'n torri'r rheoliadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt

Dynodi

am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardaloedd o werth penodol am eu bywyd gwylt neu ddaeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Ymateb

i ryw 1,400 o ddigwyddiadau amgylcheddol a adroddir y flwyddyn fel ymatebwr argyfwng Categori 1

Bod yn ymgynghorai statudol

i ryw 8,000 o geisiadau cynllunio y flwyddyn

Rheoli/Gweithredu

rheoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd rhag llifogydd a dŵr, a gweithredu ein canolfannau croeso, cyfleusterau hamdden a labordy

Bod yn Bartner, Addysgwr a Galluogwr

cydweithiwr allweddol â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, darparu cymorth grant, a helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd yn adnodd dysgu; symbylu gwaith pobl eraill

Casglu tystiolaeth

monitro ein hamgylchedd, comisiynu a gwneud ymchwil, datblygu ein gwybodaeth, a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus

Cyflogi

1,855 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall drwy waith contract a chyfleoedd gwirfoddoli

Mae ein pobl yn arddangos ein gwerthoedd drwy eu gwaith ac maent

Yn frwd ac **yn uchelgeisiol** am ein gwaith a'r effaith gadarnhaol y byddwn yn ei chael.

Yn ddisgybledig ac **yn glir eu ffocws** yn ein blaenoriaethu a'n cyflenwi.

Yn ddibynadwy ac **yn broffesiynol** yn ein perthynas â rhanddeiliaid, staff a'u cynrychiolwyr.

Yn gwneud ein gwaith gyda **synnwyr cyffredin** ac yn **gyfrifol** ac yn **atebol** am y camau a gymerwn.

Mae nifer o feysydd allweddol y'u cydnabyddwn yn **risgiau a phroblemau** i'w rheoli er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Yn sgil defnyddio egwyddorion newydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn **ffordd newydd o weithio i ni**, rydym yn symud tuag at ddull mwy cydweithredol o waith partneriaeth. Mae'n bwysig ein bod yn adnabod ac yn rheoli unrhyw rwymedigaethau sydd ynghlwm wrth berthnasoedd gwaith felly er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â sicrhau y caiff amcanion allweddol y bartneriaeth eu cyflenwi.

Llywodraethir llawer o'n gwaith gan ddeddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn refferendwm y DU y llynedd a'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym bellach yn dilyn datblygiadau cyd-drafodaethau **Brexit** yn agos am ein bod yn gwybod y gallai eu canlyniad effeithio'n sylweddol ar ein gweithgareddau craidd a'n ffynonellau posibl o gyllid allanol. Yn fwy penodol, rydym yn cyfrannu at grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru a byddwn yn chwarae rhan lawn pan fydd gofyn cymryd camau mewn ymateb i benderfyniadau San Steffan.

Parhawn i **ymateb yn dactegol ac yn strategol i'r her sy'n parhau o ran cyni'r sector cyhoeddus**, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu a rheoli ein sefyllfa ariannol. Mae natur tymor byr ein setliad ariannol blynyddol yn dwyn ansicrwydd i'n hymrwymiad i gynlluniau a phrosiectau tymor hwy. Mae angen inni fod yn oichelgar yn ein tybiaethau yn y dyfodol o 2018/19 oherwydd byddai 5% o ostyngiad blynyddol posibl hyd at 2020 yn creu rhyw £10 miliwn o fwllch cyllid a fydd yn fwyfwy anodd ei reoli.

Cydnabyddwn fod ein system gwmwl TGCh yn agored i **ymosodiadau seiber** felly i gynnal parhad busnes rydym yn asesu ein hamddiffyniad yn barhaus i sicrhau ei fod yn gymesur i debygolrwydd a maint y bygythiad a wynebwn. Parhawn i ddatblygu a gwella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff i hyrwyddo diwylliant o ddiwydrwydd wrth ddefnyddio cyfarpar a gwasanaethau TGCh sy'n ein helpu i reoli risgiau canlyniadol.

Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl wedi dangos y bu'r **cyfnod o newid parhaus** o ganlyniad i ddatblygu ein sefydliad yn un ansefydlog i'n staff. Bydd prosiectau mawr fel Gwerthuso Swyddi a Chynllunio Sefydliadol yn parhau i fod yn destun newidiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar amgylchiadau personol. Rhaid inni gadw mewn cof yr effaith ar staff a'r effaith bosibl y gallai diffyg morâl neu absenoldeb cynyddol ei chael ar gyflenwi ein hamcanion.

Crynodeb perfformiad

Cawsom ein creu i ofalu am adnoddau naturiol Cymru a'r hyn y maent yn ei ddarparu i ni; i helpu i leihau risg llifogydd a llygredd i bobl ac eiddo; i ofalu am fannau arbennig ar gyfer llesiant, bywyd gwylt a choed; ac i weithio gydag eraill i'n helpu oll i reoli'r adnoddau'n gynaliadwy.

Ar ôl pedair blynedd, cawsom gychwyn cadarn fel y cydnabuwyd gan [Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am ein datblygiad](#). I ddechrau, buom yn canolbwyntio ar ddod yn sefydliad annibynnol, gan integreiddio ein hadnoddau a lleihau'r cymorth o'n sefydliadau etifeddol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein pwyslais wedi newid i drawsnewid ein sefydliad i gyflenwi'n fwy effeithiol, dechrau newid ein strwythurau a'n ffyrdd o weithio a sicrhau ein bod yn mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er lles Cymru.

Gwnaethom hyn oll wrth barhau i gyflenwi ein gweithgareddau craidd: ymateb i achosion o lifogydd a llygredd; adeiladu a chynnal a chadw cynlluniau lliniaru llifogydd a chefnogi cymunedau drwy waith ymwybyddiaeth llifogydd; gwarchod a hyrwyddo cadernid ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth; rhoi cyngor a chanllawiau i ddatblygwyr a rheolwyr tir; cyhoeddi trwyddedau a chaniatâd a sicrhau y cydymffurfir â'u hamodau; datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy; darparu a chasglu tystiolaeth wyddonol a rheoli ein fforestydd a'n gwarchodfeydd natur.

Ni fu'n hawdd. Mae cydbwyso ein sefyllfa ariannol â'r angen i flaenoriaethu ein hadnoddau a dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau mor effeithlon â phosibl yn her barhaus.

Gan edrych i'r dyfodol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi gwir gyfle inni chwyldroi'r ffordd yr ydym yn rheoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru. Gwyddom fod angen inni atal ac yna gwrthdroi colled bioamrywiaeth, a sicrhau bod ein hecosystemau'n ddigon cadarn i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a'r buddion sydd eu hangen arnom i fyw. Mae angen hefyd inni annog busnesau i fabwysiadu'r safonau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol uchaf, ac i gydbwyso'r buddiannau hyn â pherfformiad economaidd, gan felly sicrhau twf gwyrdd a gwneud Cymru'n gystadleuol, yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Mae ein trawsffurfiad parhaus i weithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn allweddol i sicrhau eu bod yn parhau i ni ac i genedlaethau'r dyfodol.

Amdanom ni 2016/17 mewn rhifau

Ein cyflawniadau

Cynnal Cymru

Gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus Cynaliadwy 2016

Gwobrau Ynni Gwyrdd Cymru

Defnydd gorau o Ynni Adnewyddadwy yn y Sector


184 ar **Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle
Stonewall 2017**

Ein hachrediadau

Safon Sicr Coetiroedd y DU wedi'i gadw

Ardystiad ISO14001:2015 wedi'i gyflawni

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd



Ein Gweithrediadau



o ddiwydiadau
amgylcheddol a
gofnodwyd




o erlyniadau llwyddiannus
am droseddau
amgylcheddol

3 o ddynodiadau
SoDdGA newydd



880,600m³
o bren i'r farchnad



1,078

o eiddo yn elwa o'r
gostyngiad yn y perygl
o lifogydd




13,565

o bobl yn fwy ymwybodol
ac yn barod ar gyfer
llifogydd



7,993

o ymatebion i
ymgynghoriadau cynllunio



448 hectar o dir
wedi cael ei ailblannu

Ymateb i'n cwsmeriaid




14,178 o e-byst
wedi'u derbyn



98% o alwadau ffôn
wedi'u hateb o fewn 15 eiliad



132 o setiau data agored ar
gael drwy Hwb Lle
Llywodraeth Cymru



635
drwyddedau
amgylcheddol wedi'u

Dadansoddiad o Berfformiad

Yn ein dadansoddiad o berfformiad, disgrifir y ffordd yr ydym yn cynllunio ein fframwaith perfformiad ac yn craffu arno, rhoir gwybod am ein mesurau allweddol, a rhoir enghreifftiau manylach o'r ffordd yr ydym yn gweithio tuag at gyflawni ein hamcanion.

A ninnau'n Gorff a Ariennir gan Lywodraeth Cymru, ein prif rôl yw bodloni ein cyfrifoldebau statudol a chyrraedd y nodau a osodwyd inni gan Weinidogion Cymru. Gosodir ein hamcanion drwy ddull canlyniadau tymor hir a Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i sefydlu'r rhannau o'n gwaith sy'n mynnu ffocws arbennig. I fodloni'r amcanion hyn, paratwn gynllun corfforaethol tymor hwy, a gefnogir gan gynllun busnes blynyddol a fframwaith perfformiad. Mae'r dogfennau hyn oll ar gael ar ein gwefan yn

<http://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/?lang=cy>

Hwn yw ein hadroddiad olaf mewn perthynas â'n Cynllun Corfforaethol 2014-2017 a defnyddiwn ei bum thema: Gwybodaeth Dda; Amgylchedd Da; Da i Bobl; Da i Fusnes; a Sefydliad Da, i strwythuro ein Cynllun Busnes 2016/17, ein Fframwaith Perfformiad a'r Adroddiad Perfformiad hwn. Yn rhan o'n Fframwaith Perfformiad, mae ein dangosfwrdd yn olrhain tueddiadau tymor hwy drwy *ddangosyddion* y mae ein gwaith yn cyfrannu atynt, yn ogystal â *mesurau* gweithredol blynyddol y rheolwn eu cyflenwi. Eleni, o'r 33 o'r dangosyddion a'r mesurau ar ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes:

- cyrhaeddodd 19 y targed a osodwyd
- roedd 12 o fewn 10% o'r targed a osodwyd
- roeddem yn anfodlon ar un ohonynt; ac
- roedd un na chafodd ei asesu eleni.

Caiff ein cynnydd ei fonitro gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan dair gwaith bob blwyddyn. Mae'r dangosfwrdd perfformiad terfynol ar gyfer 2016/17 ar gael ar ein gwefan yn <http://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/how-well-are-we-doing/?lang=cy>

Eleni cyhoeddodd ein [Datganiad Llesiant](#) cyntaf sef *Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol*, gan weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein proses cynllunio corfforaethol, gan weithio gyda staff a rhanddeiliaid allanol i ddatblygu ein Hamcanion Llesiant newydd. Bydd y rhain bellach yn sail i'n cynllun corfforaethol nesaf, a gyhoeddir gennym yn 2017, a fydd yn amlinellu sut yr awn i'r afael â blaenoriaethau o Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac Amcanion Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd ein fframwaith perfformiad yn esblygu dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau y cyflenwir mewn perthynas â'n Hamcanion Llesiant newydd ac i rannu'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein gwaith.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn amlinellu enghreifftiau o'r ffordd y gweithiwn i gyflenwi ein hamcanion yn ogystal â'n gwybodaeth berfformiad allweddol eleni, ac maent yn edrych ar y canlyniadau ar ddiwedd ein cynllun corfforaethol cyntaf.

Gwybodaeth Dda: magu doethineb a dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol a'r ffordd yr ydym yn effeithio arnynt – gan ddefnyddio tystiolaeth a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o brofiad, er mwyn inni wneud penderfyniadau da.

Mae ein rôl yn cynnwys casglu tystiolaeth a chynnig cyngor ar faterion amgylcheddol i hysbysu penderfyniadau eraill yn ogystal â'n rhai ein hunain.

Ein hamcanion

- Byddwn yn datblygu dull Cymru o reoli adnoddau naturiol yn integredig, gan ddefnyddio'r dull ecosystem yn sail i wneud penderfyniadau.
- Byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd, ein heconomi a'n pobl yng Nghymru, ac o le Cymru yn y byd, a byddwn yn parhau i adolygu ein tystiolaeth i sicrhau ei bod yn addas i'r heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru.
- Byddwn yn datblygu ac yn rheoli sail dystiolaeth gadarn i gefnogi ein proses o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol ac i hysbysu penderfyniadau gan eraill.

Penawdau 2016/17

- Wedi cyhoeddi Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol cyntaf Cymru
- Mae 132 o setiau data agored ar gael drwy borth-daeear Llywodraeth Cymru, Lle
- Wedi ymateb i 58 o ymgynghoriadau cyhoeddus
- Wedi cyflwyno tystiolaeth i chwe sesiwn graffu/ymholiadau y Cynulliad Cenedlaethol
- Wedi cynnal Cynhadledd Ymarferwyr Arfordirol gyntaf Cymru yn arddangos gwaith i reoli ein morlin er budd yr amgylchedd, pobl a'r economi

Mae buddsoddi yn ein hadnoddau naturiol a gwneud ein hecosystemau'n gadarnach yn hanfodol i ddarparu gwell bywyd i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae ein [Hadroddiad cyntaf o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) (SoNaRR), a gyhoeddwyd eleni, yn gwneud cyswllt uniongyrchol rhwng cyflwr ein hadnoddau naturiol – ein haer, pridd, dŵr a'r fioamrywiaeth sy'n sail iddynt – a'r effeithiau ar iechyd pobl, ffyniant economaidd a lles cymdeithasol. Amlygir hefyd yn yr adroddiad y problemau sy'n wynebu ein cynefinoedd naturiol i rywogaethau bywyd gwyllt pwysig ac eiconig. Er mwyn i'n hadnoddau naturiol barhau i ddarparu ar ein cyfer a bod yn lle i fywyd gwyllt ffynnu, mae angen inni ddeall canlyniadau ein hymddygiad yn well a gofalu amdanynt yn well.

Mae SoNaRR felly'n darparu sail dystiolaeth genedlaethol hanfodol i


gydweithio i fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau sy'n wynebu ein hadnoddau ac ecosystemau naturiol. Amlygwyd saith maes gennym sy'n cynnig y cyfle mwyaf i ymdrin â'r heriau a'r risgiau a byddwn yn gweithio gyda phenderfynwyr a llunwyr polisi ar draws y sector cyhoeddus i ddechrau ystyried y risgiau allweddol i adnoddau naturiol a'r buddion tymor hir a ddarperir ganddynt, ym mhopeth a wnânt.

Cyfleoedd i reoli ein hadnoddau naturiol yn well:

- cynnwys mwy o fannau gwyrdd yn ein hardaloedd trefol
- cynyddu gorchudd coetir
- rheoli ein morlin yn fwy effeithiol
- adfer ein gorlifdiroedd
- rheoli pridd a thir yn well
- adfer mawndir a'n hucheldiroedd
- rheoli ecosystemau morol

Mae parhau i ddatblygu dull Cymru o reoli adnoddau naturiol yn integredig yn allweddol i'r ffordd y byddwn yn ailstrwythuro a chynllunio ein gwaith yn y dyfodol. Bu gweithio gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn ffocws sylweddol inni eleni i ddatblygu ein hymagwedd at Ddatganiadau Ardal. Er ei bod yn ofyniad inni eu cyflenwi o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) newydd, bydd Datganiadau Ardal hefyd yn egluro sut mae mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir ym Mholisi Adnoddau Naturiol newydd Llywodraeth Cymru (sydd ar ddod tua dechrau haf 2017) gan ddefnyddio'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Rhagwelwn y bydd chwe datganiad yn ymdrin â Chymru gyfan a seithfed yn ymdrin â'n hamgylchedd morol. Bydd pob un yn egluro pa adnoddau naturiol sydd yn yr ardal honno; y buddion a ddarparant; a'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd y mae angen mynd i'r afael â hwy. Byddwn hefyd yn egluro sut mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy **wedi'u** cymhwyso wrth baratoi'r datganiad, a sut **byddant** yn cael eu cymhwyso wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.



Wrth inni geisio cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod tystiolaeth gadarn wrth wraidd pob penderfyniad, rydym yn falch bod ein prosiect rhannu adeiladau cyntaf wedi llwyddo wrth inni symud ein labordy dadansoddi gwyddonol i gyfleuster newydd sbon yng Nghampws Singleton Prifysgol Abertawe. Yn y labordy newydd, bydd staff yn parhau i wneud ein gwaith dadansoddi amgylcheddol hanfodol, fel profi ansawdd dŵr mwy na 2,000 o samplau dŵr ymdrochi bob blwyddyn, dadansoddi samplau o ddigwyddiadau llygredd yn ogystal â datblygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i gleientiaid masnachol ehangach.

Un o'r gwelliannau mawr i'n gwasanaeth darogan risg llifogydd eleni yw helpu i roi gwybod yn well i'r rheini sydd mewn perygl llifogydd am debygolrwydd llifogydd a pha mor ddifrifol y gallai'r effeithiau fod.

Crëwyd gwasanaeth pum diwrnod newydd ar gyfer darogan risg llifogydd, yn

lle'r rhagolwg tri diwrnod a oedd ar gael o'r blaen, mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Dywydd gan ddefnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o offer penderfynu a modelu darogan meteorolegol, afonol, arfordirol a dŵr wyneb.

Caiff y rhagolygon risg llifogydd pum diwrnod eu diweddarau bob dydd, ac yn amlach pan fydd risg canolig neu uchel o lifogydd, ac maent ar gael ar ein gwefan yn

<http://www.naturalresources.wales/floodin g/5-day-flood-forecast?lang=cy>

Mae hwn yn rhoi golwg cyffredinol ar risg llifogydd ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr o afonydd, y môr a dŵr wyneb. Mae estyn y rhagolwg yn golygu y gall y cyhoedd weld yr un cyfnod rhagolwg ag a oedd ar gael o'r blaen i bartneriaid proffesiynol yn unig, fel y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol.

Cynnydd 2014-2017



Mae gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth wraidd ein dull gweithredu felly rydym wedi cymryd amser i gydnabod naw egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a phum dull gweithio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r hyn y mae'r ddau beth hyn yn ei olygu i ni ac i'r rheini o'n cwmpas yn ymarferol.

Cwblhawyd tri Arbrawf Ardal llwyddiannus yn nalgylchoedd Rhondda, Tawe a Dyfi i brofi dulliau ymarferol o weithio i'w mabwysiadu'n ehangach ar draws y sefydliad a gwaith gyda rhanddeiliaid allanol. Wrth eu gwraidd, diben yr arbrofion fu ymgysylltu ar lefel leol ag ystod eang o randdeiliaid, ac awdurdodau lleol yn benodol, er mwyn: deall y problemau; casglu tystiolaeth; a chwilio am gyfleoedd i reoli adnoddau naturiol mewn modd sy'n cefnogi ffyniant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Rydym wedi chwarae ein rhan mewn sefydlu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BCG) newydd ledled Cymru a chydabyddwn ein sefyllfa unigryw, sef mai ni yw'r unig aelod statudol sy'n eistedd ar bob BGC. Rhoddwyd tystiolaeth sylweddol gennym am adnoddau naturiol a'r amgylchedd lleol yn rhan o Asesiadau Llesiant cyntaf y Byrddau.

Amgylchedd Da: bod ecosystemau yn gadarn ac yn ddiogel at y dyfodol, bod bywyd gwyllt a thirweddau'n cael eu gwella, a bod y defnydd o'n hadnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus.

Mae ein rôl yn weithredwr, yn rheoleiddiwr ac yn ddynodwr yn cyfrannu at reoli'n gynaliadwy'r tir a'r dŵr yr ydym yn gyfrifol amdanynt, gwarchod a gwella'r amgylchedd yng Nghymru, atal colled bioamrywiaeth a sicrhau bod Cymru'n gwrthsefyll newid hinsawdd yn well.

Ein hamcanion

- Byddwn yn batrwm yn y ffordd y rheolwn yn gynaliadwy'r tir a'r dŵr yr ydym yn gyfrifol amdanynt, ac yn helpu eraill i wneud yr un peth.
- Byddwn yn helpu i warchod a gwella ansawdd ein haer, tir, môr a dŵr.
- Byddwn yn chwarae ein rhan ac yn gweithio gydag eraill i atal colled bioamrywiaeth er mwyn helpu sicrhau bod ecosystemau'n gadarnach erbyn 2020.
- Byddwn yn helpu i sicrhau y gall Cymru wrthsefyll newid hinsawdd ac effeithiau eraill yn well, yn ogystal â chefnogi ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr.

Penawdau 2016/17

- Wedi cwmpo 1,061 hectar o larwydd afiach
- Wedi ailblannu 448 hectar o dir
- Wedi cadw Safon Sicr Coetiroedd y DU
- Wedi cyflawni ardystiad ISO14001:2015
- Wedi ennill Gwobr Gwasanaeth Cyhoeddus Cynaliadwy 2016 Cynnal Cymru

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'n hardaloedd arbrawf, ein Hadroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a'n gwaith i ymgorffori egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gallwn weld ein gwaith gweithredol yn newid.

Yn rhan o brosiect [Llethrau Iach](#) yng Nghwm Rhondda, rydym wrthi'n rheoli'r llethrau gyda phartneriaid i helpu i leihau risg tanau gwyllt a gofalu am fywyd gwyllt Cymru.

Mae rhedyn bellach yn llethu llawer o lethrau'r ardal ac, os na chânt eu rheoli, gallant effeithio ar gynefinoedd bywyd gwyllt arall yn ogystal â chynyddu risg tanau gwyllt. Gall tanau gwyllt ddifrodi cynefinoedd a bywyd gwyllt lleol ac agor y ffordd i ragor o redyn dyfu, gan aildechrau'r broblem. Gan ddefnyddio dulliau mwy traddodiadol i reoli'r llystyfiant, gallwn gyfyngu ar ei gyflenwad o faetholion, gan wneud y planhigyn yn wannach a'i rwystro rhag tyfu. Mae hyn yn helpu i leihau maint a difrifoldeb tanau gwyllt, gan roi hwb hefyd i fioamrywiaeth yr ardal.



Yn sgil ein dull partneriaeth, enillom hefyd Wobr Gwasanaeth Cyhoeddus Cynaliadwy 2016 Cynnal Cymru.

Mae gweithredu'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn dechrau newid ein gwaith a'n dull o weithio, yn arbennig ar y tir a reolwn a gerllaw. Parhawn i gwmpo coed yn agos i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber yn Eryri er mwyn ailblannu coed llydanddail brodorol i wella bioamrywiaeth a'r dirwedd gyffredinol. Rydym eisoes wedi

ailblannu 13,000 o goed llydanddail brodorol; bydd yr ardal lle cwmpwyd coed yn ddiweddaraf yn cael ei hailblannu'r gaeaf nesaf a bwriadwn ehangu'r coed llydanddail gilometr sgwâr arall dros y blynyddoedd i ddod.

Wrth wneud hynny, rydym wedi treialu techneg gynaeafu newydd yn llwyddiannus, nad yw wedi'i defnyddio rhyw lawer yn y DU. Mae'r llethrau serth yn ei gwneud yn dipyn o her cynaeafu'r safle ond roeddem yn gallu defnyddio system winsh symudol, er mwyn i'r peiriannau cynaeafu symud dros y tir ond hynny hefyd heb erydu cymaint â thechnegau mwy traddodiadol. Byddwn yn defnyddio'r dechneg hon eto ar gyfer y cyfnod nesaf o gwmpo coed sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2017.

I wella cadernid ac ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru, rydym yn dal i fonitro a goruchwylio'r rheolaeth ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Dynodwyd tri safle newydd gennym eleni i helpu i ddiogelu a gwarchod y gorau o'n treftadaeth bywyd gwyllt, daearegol a ffisiograffigol er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

Er enghraifft: gan ddenu llawer o gerddwyr, a miloedd o bobl y flwyddyn i ymweld â'r fryngaer Oes Haearn a'r castell canoloesol, mae'r nodweddion daearegol yn Ninas Brân yn Llangollen yn adnabyddus iawn ac fe'u gwarchodwyd ers 1957. Erbyn hyn, cydnabuwyd glaswelltiroedd a phlanhigion yr ardal yn genedlaethol hefyd drwy statws SoDdGA. Prin yw'r glaswelltiroedd yma yn iseldiroedd Prydain a bydd planhigion prin gan gynnwys cornwlyddyn syth, beryn coesnoeth a gorfanael, a rhywogaethau pwysig o adar a gloynnod byw sydd hefyd yn dibynnu ar y glaswelltir a chynefinoedd eraill, yn gallu ffynnu.

A ninnau'n bartner allweddol yn rhaglen [y Lefelau Byw](#), sef cynllun partneriaeth tirwedd a arweinir gan RSPB wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar Wastadeddau Gwent, rydym yn datblygu ac yn cynghori ar amrywiaeth o brosiectau a fydd ar y cyd yn adfer, gwella a gwarchod y dreftadaeth naturiol a hanesyddol ac yn ailgysylltu pobl â'r ardal hon.

Drwy arwain gwaith i fynd i'r afael â Thipio Anghyfreithlon a Rhywogaethau Estron Goresgynnol, a chynnig cyngor a chymorth ar amryw brosiectau eraill, er enghraifft ar fynediad a rheoli tir, byddwn yn helpu i sicrhau y caiff Gwastadeddau Gwent eu rheoli'n well; eu bod mewn gwell cyflwr ac wedi'u cofnodi'n well. Ystyrir bod cynnwys y gymuned yn gryf yn allweddol i lwyddo a byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol i fagu a hybu

Am fod cydweithio a thystiolaeth gadarn yn allweddol i'n dull gweithio newydd, mae'n bleser gennym fod wedi cefnogi Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon mewn prosiect cyntaf o'i fath yn y byd wrth greu Cofrestr Planhigion Prin Cymru, sef cofnod cyflawn o blanhigion blodeuol a rhedyn prin pob sir yng Nghymru. Mae'r cofrestr sir ar-lein a gwellir eu gweld yn <http://bsbi.org/rare-plant-registers>

Er bod llawer o'r planhigion prin hyn ar drai, mae pob un rhywogaeth yn chwarae rhan bwysig yn ffabrig ein hamgylchedd naturiol. Mae'n hanfodol inni weithio i warchod ein bywyd gwyllt ac atal y dirywiadau hyn. Mae'r gofrestr yn rhoi tystiolaeth gynhwysfawr a chywir, fel bod pobl sy'n gweithio ym maes gwarchod planhigion bellach yn gallu adnabod safleoedd i blanhigion prin ym mhob sir, gan gadarnhau bod gan Gymru amrywiaeth ryfeddol o nodweddion naturiol.

gwybodaeth leol, datblygu sgiliau pobl, a gwella'r gwerthfawrogiad o'r dirwedd a'i threftadaeth fel ei bod yn well lle i fyw, gweithio neu ymweld ag ef.

Mae nifer o ymgyrchoedd allanol ar draws ein gwahanol lwyfannau cyfathrebu wedi'n helpu i hyrwyddo'r amgylchedd a helpu pobl ledled Cymru i werthfawrogi ein hadnoddau naturiol a gweithredu i'w gwarchod.

- Caru Peilliaid - Gan amlygu'r bygythiad i bryfed peillio ym mhedwar ban byd, bu ein hymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn hybu ymwybyddiaeth am y rhan hanfodol a chwaraeant yn y diwydiant amaethyddol a sut y gallwn helpu i ofalu amdanynt, gan ennyn diddordeb pobl drwy ffotograffiaeth gan ddefnyddio #paparazzipeillwyr #carupeilliaid
- Rhowch wybod! - Wrth lansio ein rhif ffôn newydd i roi gwybod am ddigwyddiadau, 0300 065 3000, aethom ati i ddiweddarau ein gwefan a'n negeseuon cyfathrebu i nodi'n glir pa ddigwyddiadau y gallwn ymdrin â hwy ac nad allan ymdrin â hwy, gan helpu i ganolbwyntio galwadau i'r awdurdodau cywir er mwyn ymdrin yn fwy priodol â digwyddiadau.
- Eithriadau Gwastraff Amaethyddol - Gan helpu ffermwyr i gyflwyno eithriadau gwastraff cyn y dyddiad cau ym mis Medi 2016, buom yn gweithio gyda phartneriaid i rannu negeseuon o ran beth a sut i gofrestru drwy gylchlythyrau diwydiant, cyfryngau prif ffrwd, digwyddiadau amaethyddol a chyfryngau cymdeithasol.

Cynnydd 2014-2017



O ran cydymffurfio â statws 'Da' cyrff dŵr o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, nid ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y dymunem ond cafwyd rhywfaint o welliant yn y blynyddoedd diweddar. Y waelodlin yw 37% o gyrff dŵr yn cyrraedd statws cyffredinol da neu well yng Nghymru ac rydym wedi ymrwmo i gyrraedd 42% erbyn 2021. Lluniwyd cynllun

cyflenwi cenedlaethol ar gyfer y cylch chwe blynedd hwn, i sicrhau ein bod ar y trywydd cywir i fodloni ein hamcanion. Mae gwaith gweithredol yn ymateb i ddigwyddiadau a gwaith dilynol cysylltiedig yn cyfrannu i sicrhau "dim gwaethygu" ond mae gwaith i'w wneud o hyd gyda'n rhanddeiliaid drwy Baneli Cyswllt y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.



Pryderwn o hyd am fioamrywiaeth ledled Cymru. Mae cyflwr cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II yng nghyffres ACA yng Nghymru yn anffafriol i raddau helaeth, a dim ond 24% yn cael eu hystyried yn ffafriol ar hyn o bryd.

Ni fydd ein gwaith ni'n unig yn sicrhau'r gwelliannau sy'n ofynnol yng nghyflwr nodweddion safle. Mae amrywiaeth o gamau gweithredu, a gymerir ar hyn o bryd gan dirfeddianwyr preifat, Llywodraethau Cymru a'r DU, a sefydliadau partner, ymhlith eraill, yn cael eu targedu at gynnal neu wella cyflwr nodweddion yn rhwydwaith Natura 2000. Mae adnoddau sylweddol yn cael eu cymhwyso i'n rhaglen o gamau gweithredu blaenoriaeth i safleoedd arbennig. Bu'r statws hwn yn sefydlog ers saith blynedd bellach ac nid yw'n cyrraedd y targed 95% yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru.

Bydd gwaith y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt i ddatblygu ein hymagwedd at ein Dyletswydd newydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ceisio mynd i'r afael â bioamrywiaeth a chadernid ledled Cymru. A chydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i gymryd camau a nodwyd i gyrraedd amcanion y Cynllun Adfer Natur.

Yn Dda i Bobl: bod pobl yn ddiogel, ac yn mwynhau ein hadnoddau naturiol ac yn elwa arnynt, ac yn deall eu perthnasedd yn ein bywydau pob dydd

Mae ein rôl yn weithredwr, yn rheoleiddiwr, yn ymatebwr ac yn addysgwr yn cadw pobl yn ddiogel ac yn annog pobl i ymweld ag amgylchedd Cymru.

Ein hamcanion

- Byddwn yn sicrhau ymateb effeithiol a chydgyssylltiedig i ddigwyddiadau a risgiau amgylcheddol, fel llifogydd, llygredd ac achosion o glefyd, ac yn helpu i ostwng risg llifogydd i bobl ac eiddo.
- Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd hamdden a mynediad sy'n cyfrannu at wella iechyd a lles pobl.
- Byddwn yn helpu i sicrhau amgylchedd o ansawdd da y gall pobl fyw ynndo, gweithio yno, ac ymweld ag ef, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd trefol a'r rheini yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a byddwn yn sianelu budd economaidd i helpu i drechu tlodi.
- Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd i bobl ddysgu yn yr amgylchedd, dysgu amdano, a'i fwynhau.

Penawdau 2016/17

- Mae 13,565 o bobl yn fwy ymwybodol o lifogydd ac yn fwy parod ar eu cyfer
- Mae 1,078 eiddo yn elwa ar lai o risg llifogydd
- Wedi cwblhau Cynllun Categoriiddio Digwyddiad Integredig newydd
- Ardal Sgiliau Beicio Mynydd newydd ym Mwlch Nant-yr-arian

Mae tri chynllun lliniaru llifogydd mawr bellach yn helpu i leihau risg llifogydd i eiddo yn Rhisga, Caerllion a Tabbs Gout ers eu cwblhau eleni. Rydym hefyd wedi ymgynghori â chymunedau ar gynlluniau'r dyfodol i rannu sut bydd y cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu ac i chwilio am ffyrdd y gallwn sicrhau buddion ychwanegol i'r cymunedau drwy ein gwaith. Wrth ymgysylltu â chymunedau yng Nghrindau, y Rhath a Llanelwy drwy sesiynau galw heibio a thafenni, rydym wedi egluro'r opsiynau ar gyfer cynlluniau'r dyfodol ac mae'r buddion ychwanegol a nodwyd yn cynnwys gwella'r ardal ddarllen awyr agored mewn un ysgol gynradd, cefnogi rhandiroedd, datblygu prosiect gwelyau blodau uchel mewn canolfan gymunedol a chynnwys celf gyhoeddus yn rhan o'r cynllun.

Mae dau lwybr rhedeg newydd yng Nghoedwig Dyfi ac ardal sgiliau beicio mynydd newydd ym Mwlch Nant-yr-arian yn annog pobl i fod yn fwy gweithgar a mwynhau'r awyr agored. Mae cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden a mynediad yn y safleoedd a reolwn yn rhan o'n hymrwymiad i helpu pobl i fyw bywydau mwy bodlon ac iach, gan atal problemau iechyd a lles tymor hwy yng nghenedlaethau'r dyfodol. Gan gynnwys busnesau lleol a chlybiau rhedeg, rydym wedi cynllunio a lansio'r llwybrau i gysylltu pobl â byd natur ac i gryfhau'r economi lleol, ac rydym yn dod ynghyd â thywysyddion a hyfforddwyr lleol sy'n gallu helpu ymwelwyr a phobl leol i fanteisio ar yr adnoddau gwych hyn.

Bydd newidiadau yn y ffordd y rheolwn [drwyddedau gwialen](#) hefyd yn cyfrannu at les corfforol a meddyliol drwy fod yn fwy gweithgar a helpu pobl i gysylltu â byd natur yn ei holl ffurfiau. Eleni, cyflwynwyd gennym:

- drwydded gwialen rad ac am ddim i blant 12 i 16 oed i annog mwy o bobl ifanc i roi cynnig ar bysgota a hybu dyfodol y gamp. Bydd angen i enweirwyr iau gofrestru ar-lein o hyd cyn iddynt fynd i bysgota
- trwydded gwialen dreigl sy'n para 365 diwrnod o'r dyddiad prynu – yn hytrach na phara tan ddiwedd mis Mawrth ni waeth pryd y'i prynwyd
- un drwydded i gynnwys defnyddio tair gwialen ar gyfer pysgota bras arbenigol yn hytrach na dwy.

Yn ôl ein harolwg ym mis Hydref 2016, roedd 43.4 miliwn o ymweliadau dydd ag arfordir Cymru yn 2014 yn cynnwys cerdded fel gweithgaredd. Gwariodd yr ymwelwyr hyn £84.7 miliwn yn yr economi arfordirol, gan gefnogi 900 o swyddi. Parhawn i fuddsoddi £900,000 y flwyddyn ar gyfartaledd i gynnal, gwella, marchnata a monitro Llwybr Arfordir Cymru. Dosbarthir mwyafrif y cyllid hwn ar ffurf grant i'n 15 o bartneriaid awdurdod lleol i wneud gwaith ar y ddaear ond mae hefyd yn cefnogi ein dau aelod o staff cydlynu cenedlaethol a'n pedwar Swyddog Llwybr Arfordir Cymru rhanbarthol. Drwy gydol y flwyddyn, mae ein swyddogion yn parhau i farchnata'r llwybr drwy wefan Llwybr Arfordir Cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gysylltu â rhyw 19,200 o ddilynwyr Twitter a 13,900 o ddefnyddwyr Facebook.

Cynhaliodd ein swyddfa ym Mwcle ein lleoliad Esgyn cyntaf eleni yn rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl ddi-waith tymor hir yng Nghymru. Wrth weithio fel cynorthwydd fflyd a chyfleusterau am wyth wythnos, roedd y dyletswyddau'n cynnwys cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch ar gerbydau fflyd ac adeiladau swyddfa CNC a darparu gwasanaethau cefnogi staff eraill.

Dros y 18 mis nesaf, anelwn at ddarparu 30 o leoliadau Esgyn ledled Cymru. Gobeithiwn y bydd y cyfle i ennill sgiliau newydd yn rhoi unigolion mewn sefyllfa well i ddod o hyd i gyflogaeth ac yn helpu i atal tlodi tymor hwy yng Nghymru.

Cynnydd 2014-2017



Gyda 208,500 eiddo yng Nghymru mewn perygl llifogydd, rydym wedi parhau i leihau risg llifogydd drwy brosiectau cyfalaf lle gallwn. Er bod ein cyllideb rheoli risg llifogydd wedi newid, rydym wedi parhau i gyrraedd neu ragori ar ein targed o leihau'r risg llifogydd i 500 eiddo bob blwyddyn ers ein creu, a chyfanswm o 2,201 eiddo ledled Cymru bellach mewn categorïau risg is ers 2014/15.



Ac un o bob chwech yng Nghymru'n byw neu'n gweithio mewn ardal mewn perygl o lifogydd, a digwyddiadau llifogydd eithafol yn digwydd yn amlach nag erioed, rydym wedi parhau i weithio gyda chymunedau, busnesau ac unigolion i'w helpu i gymryd camau ymarferol cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

Ynghyd â pharhau ein gwasanaeth rhad ac am ddim i rybuddio am lifogydd, eleni cwblhawyd ein 1000fed cynllun llifogydd. Mae cynlluniau llifogydd yn helpu pobl i baratoi yn y modd gorau posibl pe byddai llifogydd yn digwydd; er enghraifft, yn achos unigolion, gallai hyn olygu gwirio manylion yswiriant neu eu hatgoffa i ddiogelu eitemau personol a nodi manylion cyswllt pwysig. Byddai cynlluniau llifogydd cymunedol yn cynnwys manylion pwyntiau ymgasglu diogel a gwybodaeth am bobl y byddai angen help arnynt yn ystod argyfwng. Mae cynlluniau llifogydd busnes yn canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol llifogydd ond hefyd ar sicrhau yr aflonyddir cyn lleied â phosibl wedyn ar y busnes.

Yn dda i Fusnes: 'lleoliad dethol' i fusnes a menter, a lleoliad lle mae arfer gorau rheoli amgylcheddol yn cael ei fabwysiadu a'i annog.

Mae ein rôl yn rheolwr, yn gynghorwr, yn rheoleiddiwr ac yn ymgynghorai statudol yn cefnogi busnesau sy'n gweithio gyda'r amgylchedd naturiol ac yn dwyn budd i economi Cymru.

Ein hamcanion

- Yn rheoleiddiwr, byddwn yn rhoi cyngor a phenderfyniadau clir ar sail tystiolaeth mewn da bryd, er mwyn i fusnesau yng Nghymru weithredu'n effeithiol a chyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf.
- Byddwn yn gweithio gyda busnes, diwydiant a'r llywodraeth i gefnogi datblygiad seilwaith allweddol ac annog datblygiad yn y manau cywir i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
- Byddwn yn gweithio'n agos gydag eraill i adnabod, datblygu a chefnogi cyfleoedd busnes newydd a chyfleoedd newydd am swyddi a hyfforddiant i greu gweithlu medrus yng Nghymru.
- Byddwn yn tyfu ein hincwm o fewn ein diben, gan ail-fuddsoddi'r incwm hwnnw i ddwyn budd cyhoeddus pellach.

Penawdau 2016/17

- 880,600m³ o goed i'r farchnad
- 142 o erlyniadau llwyddiannus am droseddau gwastraff, ansawdd dŵr a physgodfeydd
- Wedi ennill gwobr 'Defnydd Gorau o Ynni Adnewyddadwy yn y Sector Cyhoeddus' yng Ngwobrau Ynni Gwyrdd Cymru

Mae gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn golygu cymryd safbwynt ehangach wrth gynllunio a gwneud ein gwaith. Mae ein cyngor i bartneriaid a chwsmeriaid yn helpu i gynhyrchu buddion niferus i bobl Cymru. Mae cydweithio effeithiol â busnesau fel y darparwr ynni Vattenfall ym Mhen y Cymoedd yn helpu i sicrhau ynni i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal ag adfer cynefin mawndir perffaith, plannu coed brodorol i wneud iawn am goed a gollwyd, a llwybr beicio mynydd £350,000 cyffrous newydd Blade ym Mharc Coedwig Afan yn ogystal ag incwm blynyddol i Lywodraeth Cymru y tiffeddiannwr. Bydd y prosiect yn cynhyrchu digon o drydan i bweru 140,000 o gartrefi bob blwyddyn, ac mae hefyd yn creu swyddi, gan ddarparu £1.8 miliwn y flwyddyn i gronfa gymunedol a ffurfiwyd gan bobl leol, i bobl leol, a buddsoddi arian mewn gwaith parhaus i adfer cynefinoedd a gwarchod byd natur.



Mae monitro ansawdd aer ym Mhort Talbot wedi dangos y canlyniadau gorau am ansawdd aer lleol ers dros wyth mlynedd gan wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau tua 13,000 o bobl sy'n byw yn yr ardal. Mae diogelu a gwella ansawdd yr aer a anadlwn drwy ganiatáu a rheoleiddio diwydiannau llygru mwyaf Cymru yn rhan bwysig o'n gwaith i sicrhau cenedl fwy iachus, fwy llewyrchus a mwy cyfrifol yn fyd-eang. Am mai yno yw'r unig Ardal Rheoli

Ansawdd Aer a ddatganwyd yng Nghymru, mae Port Talbot yn ffocws sylweddol oherwydd lefelau Gronynnau 10 micrometr neu lai o ddiamedr (PM₁₀) a ganfyddir ac sy'n niweidiol i'n hiechyd.

Yn 2016 roeddem yn falch o weld mai dim ond ar wyth diwrnod y llynedd y torrwyd y terfyn cyfartalog dyddiol o PM₁₀, mewn perthynas ag amcanion y DU sy'n nodi na ddylid ei dorri mwy na 35 diwrnod mewn blwyddyn. Rydym yn gweithio gyda Tata Steel a'r gymuned leol, yr awdurdod lleol yn ogystal â Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr Ansawdd Aer Cenedlaethol, i sicrhau bod ein cyfuniad o welliannau ac ymyriadau rheoleiddiol wedi gwneud gwahaniaeth, a'i fod yn parhau i wneud gwahaniaeth.

Mae proffil ar-lein newydd o [bysgodfa Cilfach Tywyn](#) yn helpu i hysbysu'r diwydiant am ei stociau cocos a helpu i hybu'r economi leol. Gan weithio gyda Seafish, sef corff diwydiant sy'n ceisio cefnogi dyfodol proffidiol, cynaliadwy a chymdeithasol gyfrifol i'r diwydiant bwyd môr, aethom ati i greu offeryn sy'n ein galluogi i rannu manylion fel statws stoc, sgil-ddalfa a risg cynefin y gwely cocos yn Ne-orllewin Cymru, yn rhyngwladol gyda deiliaid trwydded a phrynwyr posibl. Gobeithiwn y bydd gwneud mwy o wybodaeth ar gael i brynwyr a phrosesyddion bwyd môr yn cynyddu'r gystadleuaeth ac yn cynyddu prisiau cocos, gan ddwyn budd i ddeiliaid trwydded a'r economi leol yn y tymor hwy.

Mae'r proffil ar gael ar wefan [Risk Assessment for Sourcing Seafood](#) (RASS) Seafish, sy'n rhoi gwybod i brynwyr a phrosesyddion bwyd môr y DU am statws stociau pysgod ac effeithiau amgylcheddol eu dal.

Eleni oedd y nawfed flwyddyn yn olynol i'r gwelyau cocos agor ar aber Afon Dyfrdwy ers cyflwyno system drwyddedu. Mae'r system yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n cael casglu cocos er mwyn rheoli'r bysgodfa mewn modd cynaliadwy er budd pysgotwyr cocos, adar a'r amgylchedd ehangach.

Y llynedd, roedd stociau cocos yn isel ond ymddangosodd silod helaeth (cocos ifanc) tua diwedd yr haf y llynedd, gan olygu bod llawer iawn o gocos bychain ar gael. Erbyn hyn, mae 53 o bysgotwyr cocos trwyddedig yn dilyn nifer o reoliadau, megis y math o gyfarpar a ddefnyddir, yn ystod pa oriau y gellir casglu cocos a chwota cynaeafu dyddiol sef nifer y cocos y gellir eu cynaeafu. Drwy hyn, sicrheir y cydbwysedd cywir, sef digon o gocos i'r diwydiant, i boblogaeth bwysig yr aber o adar hirgoes ac i adfywio'r gwelyau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae ein camau gorfodi'n parhau i helpu i warchod yr amgylchedd wrth weithio i greu maes cystadlu gwastad i fusnesau cyfreithlon. Cymerom gamau yn erbyn dau sefydliad yng Ngogledd Cymru a oedd yn storio ac yn cludo tua 200 tonnall fetrig o wastraff yn anghyfreithlon. Darganfu ein swyddogion amgylchedd fod pridd cymysg, gwastraff adeiladu a dymchwel, malurion ffordd, sbwriel dail a gwastraff gwyrdd yn cael eu storio mewn depo heb drwydded. Pan ofynnwyd am ei symud i gyfleuster gwastraff awdurdodedig, sylwyd rhai diwrnodau'n ddiweddarach ar ail weithredwr yn gadael y gwastraff mewn cae cyfagos, a hynny heb ganiatâd. Cafodd y gwastraff hwn, sy'n gallu bod wedi'i halogi â hydrocarbonau a metelau trwm, ei adael mewn nant a gerllaw gan fentro llygru'r cwrs dŵr ac effeithio ar ansawdd y dŵr. Roedd perygl hefyd y byddai gwastraff pridd yn ymuno â'r nant gan effeithio ar gynefinoedd pysgod ac infertebratau. O'r

diwedd, cafodd y gwastraff anawdurdodedig ei neilltuo ac aethpwyd ag ef i safle gwastraff a allai ei dderbyn. Cafodd y sefydliadau ddirwy o £73,400 a £14,200 yn y drefn honno, a chostau llys o £3,900 a £1,740.

Yn 2016, yn sgil 142 o erlyniadau am droseddau gwastraff, ansawdd dŵr a physgodfeydd, rhoddwyd cyfanswm o £239,521.00 o ddirwyon a £113,876.60 o gostau dyfarnu i CNC. Mae gwybodaeth bellach am ein gwaith gorfodi ar gael yn ein Hadroddiad Rheoleiddio 2016 ar ein gwefan yn <http://www.naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/how-well-are-we-doing/?lang=cy>

Cynnydd 2014-2017



Ar ôl gweithredu un Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu, mae ein perfformiad o ran ymateb i geisiadau cynllunio cyn pen terfynau amser statudol neu gytunedig wedi parhau i wella, gan gyrraedd ein targed o 95% am y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn monitro effeithiolrwydd ein cyngor wrth ymateb i gynlluniau datblygu sydd wedi cael sgôr o 80%. Ceisiwn feithrin hyn ymhellach drwy gydweithio mwy a chanolbwyntio ar y tymor hir yn ein dulliau newydd o weithio.



Yn sgil datblygu un gwasanaeth trwyddedu a chaniatáu, mae ein perfformiad wedi gwella i benderfynu 95% o drwyddedau a chaniatâd cyn pen amserlenni statudol neu gytunedig. Mae amryw brosiectau gwella yn sbarduno newidiadau cadarnhaol gan gynnwys gwelliannau i'r wefan a ffurflenni cais, arolwg cwsmeriaid, a chylchlythyr chwarterol i roi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau a mentrau.



Mae amodau cadarnhaol y farchnad goed a mwy o alw, ynghyd â phrosiectau cyflenwi ynni llwyddiannus a gwerthu ein hasedau – gan gynnwys tir, adeiladau a fflyd – wedi cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd ein targed incwm masnachol bob blwyddyn wrth inni ddatblygu ein gweithgareddau menter. Mae'r cynnydd o £17.7 miliwn yn 2014/15 i £26.2 miliwn yn 2016/17 yn galonogol a gobeithiwn y bydd hyn yn parhau wrth inni geisio cyfleoedd newydd drwy ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Sefydliad Da: Rydym am gael ein harwain a'n rheoli'n dda, gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau effeithiol yn sail iddynt; bod yn dryloyw wrth wneud ein penderfyniadau a gwella ein gwasanaeth yn barhaus i gwsmeriaid a phartneriaid, gan feincodi ein hunain mewn perthynas â'r goreuon.

Mae ein gwaith yn rheolwr ac yn gyflogwr yn helpu ein trawsffurfiad i fod yn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus rhagorol.

Ein hamcanion

- Byddwn yn gwella ein gwasanaethau'n barhaus i gwsmeriaid a'n perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy ddulliau agored a chydweithredol.
- Byddwn yn gweithio'n fwy effeithlon ac yn tyfu ein hincwm, o fewn ein diben, fel y gallwn ddefnyddio'r arbedion hyn i ddarparu mwy o fudd cyhoeddus.
- Byddwn yn datblygu diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd, sy'n cynyddu ein sylfaen sgiliau, sy'n gwella ein hyblygrwydd a'n hamrywiaeth, ac sy'n gwella ein safonau iechyd a diogelwch.

Penawdau 2016/17

- Lleihad o 1,423 i 465 o geisiadau TGCh ers 2013
- Wedi cyflawni annibyniaeth TGCh oddi wrth y cyrff etifeddol
- 315 o staff yn dysgu Cymraeg
- Rhif 1 ar Fynegai Llywodraeth Ganolog y DU am Hygyrchedd Gwefan

Bu'n flaenoriaeth o hyd eleni rhesymoli ein hadeiladau, gyda symudiadau llwyddiannus wedi'u cwblhau yn y Gogledd a'r De. Ers rhoi heibio Plas Penrhos ym Mangor, mae'r staff wedi symud o Lyn Brain i Faes y Ffynnon, fel bod ein holl staff ym Mangor ar un safle. Mae adleoli ein Labordy gwreiddiol yn Llanelli yn ogystal â chau safleoedd llai o faint, er enghraifft Rhydri, wedi dwyn opsiynau mwy cost effeithiol i ddarparu lle i'n staff.

Roedd ein Strategaeth Timau a Phobl (2016-20) yn nodi ein blaenoriaethau i gefnogi arweinwyr a rheolwyr i wneud eu gwaith yn dda ac roedd yn ymrwymo i ddysgu a datblygu parhaus i'n pobl. Lluniwyd ein fframwaith datblygu rheolwyr i gynnig dysgu cyfunol ar draws yr holl lefelau rheoli yn CNC, o e-ddysgu, gweminarau a chyrsiau ffurfiol. Mae'r holl Dîm Gweithredol a'r tîm Arwain wedi dechrau rhaglen ddatblygu i gefnogi cymhwysedd a hyder arweinwyr, a fydd yn parhau i 2017/18. Mynychodd 56 aelod o staff TYFU, sef rhaglen wedi'i theilwra yn canolbwyntio ar sgiliau arwain craidd a'r hyn y mae CNC yn ei ddisgwyl gan ei arweinwyr a'i reolwyr. Mae 30 aelod arall o staff wedi mynychu Rhaglen Datblygu Arweinwyr Tîm a anelir at Reolwyr ac Arweinwyr Tîm newydd a'r rheini sy'n anelu at rôl reoli.

Mae ein portffolio trawsffurfio wedi newid ei ffocws nawr i'r dyfodol, gan sicrhau y gallwn fodloni'r heriau o'n blaenau fel bodloni ein diben newydd, addasu i'r cyd-destun deddfwriaethol newidiol yng Nghymru, a sicrhau ein huchelgeisiau mewn amgylchedd sy'n ariannol heriol. Rydym wedi cwblhau rhaglen Adolygiad Ardal Busnes, i nodi gwaith y gall ddod i ben, gwaith sydd angen ei wneud yn wahanol, a gwaith y mae angen inni wneud mwy ohono, ac ar yr un pryd yn archwilio dulliau cyflenwi eraill. Arweiniodd hyn at Adolygiad Uwch Reolwyr, ailstrwythuro ein Cyfarwyddiaethau a'n Timau Rheoli Arweinyddiaeth er mwyn inni sicrhau dyluniad integredig, yn unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

hyrwyddo meddwl cydgysylltiedig, a ffocws ar atebion lleol neu Gymru gyfan yn ôl yr angen.

Ein blaenoriaeth eleni fu datblygu cynllun Gwerthuso Swydd, mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur, sy'n fforddiadwy i'r sefydliad ac yn deg i'n holl staff. Cafodd staff eu canlyniadau ym mis Mawrth 2017 ond yn dilyn pleidlais Undeb Llafur ynghylch gweithredu'r cynnig ai peidio, roeddem yn siomedig na chytunwyd i'r cynllun. Rydym bellach yn gweithio gydag Undebau Llafur i ddeall y rhesymau am y canlyniad hwn a byddwn yn ceisio cyd-drafod ateb cyn gynted â phosibl.

Cynnydd 2014-2017



Rydym yn falch y gallwn ddangos, ar ôl ein cyfnodau pontio a thrawsffurfio cychwynnol, ein bod yn cyflawni'r hyn a ddisgwyliwyd a'n bod wedi gwneud yr arbedion a ddisgwyliwyd gennym yn yr Achos Busnes gwreiddiol i greu ein sefydliad.

Rydym wedi sefydlu ein hunain yn sefydliad annibynnol, integredig sydd wedi dechrau sicrhau gwell canlyniadau drwy symleiddio ein gwasanaethau a chydgysylltu ein dulliau. Erbyn diwedd mis Mawrth 2017, roeddem wedi gwneud newidiadau a fydd yn cronni £141 miliwn o arian a £30 miliwn pellach o fuddion posibl heb fod yn arian parod erbyn 2022/23. Mae'r cyfanswm hwn o £171 miliwn yn cymharu â £158 miliwn o darged Achos Busnes dros yr un ffrâm amser. Cyflawnwyd hyn mewn perthynas â gostwng y Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru.



Roeddem yn siomedig fod ein Harolwg Pobl 2016 yn dangos gostyngiad yn ein sgôr ymgysylltu â staff o 48% yn 2015 i 41% mewn perthynas â tharged o 58%. Mae'n amlwg o'r canlyniadau fod angen inni wneud mwy i gefnogi staff drwy'r hyn sy'n dal i fod yn gyfnod heriol o newid yn ein sefydliad. Crëwyd ein Grŵp Llywio Pobl a Thimau mewn ymateb i fynd i'r afael ag ymgysylltu, grymuso, ymddygiadau a phrosesau drwy wneud ein tîm arwain yn fwy gweladwy, cael mwy o drafod wyneb yn wyneb a chynnwys ein staff yn ogystal ag adolygu terfynau dirprwyo a chynyddu cymorth i systemau newydd.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2017

Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu nodweddion allweddol ar y ffordd y rheolwn ein sefydliad. Dros y tudalennau canlynol, mae ein hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n uwch dîm rheoli, sut maen nhw'n gweithio a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu rheoli a'u goruchwyllo'n effeithiol i gyflawni ein hamcanion. Mae ein Hadroddiad Tâl a Staff yn disgrifio sut yr awn i'r afael â thal aelodau Bwrdd ac uwch reolwyr ac mae'n rhoi trosolwg ar gyfansoddiad ein niferoedd staff. Mae ein Hadroddiad Archwilio ac Atebolrwydd Seneddol yn dod ynghyd â gofynion ychwanegol a fyynnir i arddangos ein hatebolrwydd i Lywodraethau Cymru a'r DU, rheoleidd-dra gwariant a'r farn derfynol gan ein Harchwilydd.

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Cyflogwyd pum Cyfarwyddwr Gweithredol gennym a dau Gyfarwyddwr sydd, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyn-gyfarwyddwr Llywodraethu, wedi ffurfio ein Tîm Gweithredol yn ystod 2016/17.

Swydd	Deiliad y Swydd	Hyd Gwasanaeth
Prif Weithredwr	Dr Emyr Roberts	1 Tachwedd 2012 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid	Kevin Ingram	1 Ebrill 2013 - presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Ceri Davies	1 Ebrill 2013
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (y Gogledd a'r Canolbarth)	Tim Jones	1 Ebrill 2013
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (y De)	Gareth O'Shea	27 Ebrill 2015 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl	Ashleigh Dunn	17 Tachwedd 2014 – presennol
Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	Catherine Smith	22 Ebrill 2014 – presennol
Cyfarwyddwr Llywodraethu	Clive Thomas	1 Ebrill 2013 – 31 Hydref 2016
Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsffurfio	Niall Reynolds	1 Ebrill 2013 - presennol

Mae Cofrestr Buddiannau ein Tîm Gweithredol ar gael ar ein gwefan.


<http://www.naturalresources.wales/about-us/our-chair-board-and-management-team/how-we-are-managed?lang=cy>

Rheoli ein cyllid

Cyllid


Ein cyfanswm incwm am y flwyddyn oedd £63 miliwn. Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru £111 miliwn o Gymorth Grant tuag at amryw ganlyniadau. Dyrannwyd £34 miliwn i Reoli Risg Llifogydd ac Arfordirol a £77 miliwn i Reoli Risg Heblaw Llifogydd ac Arfordirol. Yn y Cyfrifon, caiff Cymorth Grant ei drin fel cyfraniad gan awdurdod rheoli ac nid ffynhonnell incwm. Dengys y siart isod ddsbarthiad ein cyfanswm incwm.

Cyllid yn ôl Math



Dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae ein cyllid wedi lleihau o £193 miliwn i £174 miliwn, a'r gostyngiad mwyaf yng Ngrantiau Llywodraeth Cymru (£13 miliwn). Dengys y tabl hefyd ein hymrwymiad i godi gostyngiad ariannol o £2 filiwn ar dalwyr dros yr un cyfnod. Er bod y tabl yn dangos bod incwm masnachol ac arall wedi gostwng, mae proffidoldeb ein gwaith masnachu coed wedi gwella. Dangosir hyn yn y graff isod.


Cyllid yn ôl Blwyddyn Ariannol



Sut cafodd ein harian ei wario


Cyfanswm ein gwariant oedd £182 miliwn. Mae dadansoddiad manwl fesul categori gwariant ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac fe'i dangosir isod hefyd.

Gwariant yn ôl Math




Dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae ein gwariant wedi gostwng yn unol â chyllid, o £198 miliwn i £182 miliwn. Cyflawnwyd hyn drwy gymysgedd o arbedion effeithlonrwydd, gostyngiadau yn y swm a dalwn i gyrff etifeddol am Gytundebau Lefel Gwasanaeth, diwedd y Cynllun Grant Coetir a gostyngiadau mewn gwasanaethau. Dangosir hyn yn y graff isod.

Gwariant yn ôl Blwyddyn Ariannol



Dengys y graff isod sut cafodd yr arian ei wario fesul Cyfarwyddiaeth. Gwariwyd 48% o'n gwariant yn ein timau Gweithrediadau, a gwariwyd 20% arall yn ein timau Amgylchedd, Trwyddedu a Chynllunio. Gwariwyd y 32% a oedd yn weddill ar draws yr amrywiaeth o adrannau Gwasanaeth Corfforaethol, sy'n cael eu meincodi'n rheolaidd mewn perthynas â chyrrff sector cyhoeddus eraill. Byddwn yn dirprwyo cyllidebau pellach i'r timau Gweithrediadau ac Amgylchedd, Trwyddedu a Chynllunio yn ystod 2017/18, fel bod y gwariant yn cyd-fynd yn gywirach â'r gweithgareddau.

Gwariant yn ôl Cyfarwyddiaeth




Rheoli ein Harian

Yn 2016/17 cawsom £6.1 miliwn (7%) yn llai o Gymorth Grant o'i gymharu â 2015/16. Digwyddodd hyn ar ôl cael £3.2 miliwn o ostyngiad y flwyddyn flaenorol. Yn 2015/16 roeddem wedi cynnal ymgyrch effeithlonrwydd yn llwyddiannus o'r enw 'Llwyddo â Llai' a arbedodd £2.5m a ymgorfforwyd yn y busnes ac a ddarparodd lwyfan i ateb y pwysau hynny. Rhoesom amryw fesurau ar waith i osod cyllideb fforddiadwy ar gyfer 2016/17, a nifer o feysydd yn cael eu lleihau dros 10%, ac rydym wedi parhau â rheolaethau gweithlu tynn. Buom hefyd yn ailystyried ein strategaeth marchnata coed i ganolbwyntio ar gynaeafu'r coed mwyaf proffidiol.

Edrych at y Dyfodol

Rydym yn datblygu ein Cynllun Corfforaethol 2017-2022 a fydd yn canolbwyntio ar ein Hamcanion Lles ar eu newydd wedd, ac ar Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Er ein bod wedi cael setliad Cymorth Grant sefydlog ar gyfer 2017/18, fe'n cynghorwyd i fod yn ochelgar yn ein tybiaethau yn y dyfodol o 2018/19 ymlaen. Dengys y graff isod yr effaith y byddai gostyngiad blynyddol o 5% hyd at 2020 yn ei chael; byddai hyn yn creu tua £10m o fwch cyllid.

SENARIO ARIANNOL CNC CYFANSWM INCWM A GWARIANT - GOSTYNGIAD O 5%



Rydym wedi cwblhau'r adolygiadau o'n holl feysydd busnes ac rydym bellach yn gweithredu ein sefydliad ar ei newydd wedd er mwyn inni gael sefydliad cynaliadwy a fforddiadwy sy'n gallu bodloni ein huchelgeisiau.

Asedau Anghyfredol

Gwerth ein hasedau anghyfredol oedd £899 miliwn ar 31 Mawrth 2017, sef 3% (£25 miliwn) o gynnydd ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran fwyaf sylweddol yw gwerth yr ystâd goedwigoedd ac asedau biolegol sy'n cyfrif am £738 miliwn o'r cyfanswm. Mae gofyn inni gynnal ailbrisiad annibynnol bob pum mlynedd o ystâd goedwig, adeiladau a thir rhydd-ddaliadol a chynhelir hwnnw nesaf yn 2020/21. Yn y cyfamser, caiff ein hasedau anghyfredol, lle cânt effaith sylweddol ar y Datganiadau Ariannol, eu hailbrisiu drwy'r mynegeion priodol.

Talu Masnachwyr a Chostau Taladwy eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu 95% o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod ac anelwn at ragori ar y targed hwn os oes modd. Y perfformiad am y flwyddyn gyfan oedd 98% ac roedd yn welliant sylweddol ers y flwyddyn ariannol flaenorol (91%). Mae hyn yn helpu i leddfu llif arian busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni.

Busnes Hyfyw

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017 yn dangos £842 miliwn o ecwiti trethdalwyr positif. Caiff ein rhwymedigaethau eu cyllido yn y dyfodol drwy Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru a chymhwyso incwm y dyfodol. Cawsom gymeradwyaeth am gyllid eisoes ar gyfer 2017/18. Mae'n briodol felly mabwysiadu sail busnes hyfyw i baratoïr Datganiadau Ariannol.

Rheoli Ystâd

Rheolwn ystâd coedwigoedd cyhoeddus Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'n polisi caffael a gwerthu a'n Strategaeth Fenter. Mae gennym hefyd Gynlluniau Coedwig ar

gyfer yr holl ystâd, sy'n nodi sut bydd pob coedwig yn cael ei rheoli i gyrraedd amcanion strategaeth dros y 25 mlynedd nesaf.

Rydym hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Naturiol a fydd yn darparu cyfres o gynlluniau/strategaethau lleol a fydd yn arwain y gwaith o reoli'r ystâd a'r asedau ledled Cymru.

Rheolir pob Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn unol â chynllun rheoli cymeradwy, gan gynnwys y rheini sy'n eiddo i CNC neu a reolir gan CNC, y rheini a reolir drwy drefniadau partneriaeth, a'r rheini a reolir gan drydydd parti. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl nodweddion o ddiddordeb a gydnabuwyd ac yn nodi prosiectau a rhaglenni gwaith angenrheidiol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu yn gyfnodol a'u gwirio gan ein tîm Rheoli Cadwraeth, drwy raglen dreigl o adolygiadau/archwiliadau amgylcheddol.

Pensiynau

Datgelir y rhwymedigaeth bensiwn yn y Datganiadau Ariannol ar sail Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r rhwymedigaeth wedi gostwng ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £47 miliwn i £42 miliwn yn y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sail a ddefnyddir am gyfrifiadau cyllid. Cynhaliwyd yr ailbrisiad ffurfiol diwethaf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016 ac roedd yn dangos sefyllfa gyllid gyffredinol o 103%.

Archwilwyr

Archwilir ein cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2016/17 oedd £143k. Roedd ffi ychwanegol o £42k am waith a wnaethpwyd o ran craffu ar gontractau coed tymor hir a gyhoeddwyd yn 2014.

Data Personol

Ni roddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw golledion data personol yn ystod 2016/17.

Data Corfforaethol

Ni roddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw golledion data corfforaethol yn ystod 2016/17.

Adrodd Corfforaethol

Mae'r adroddiadau blynyddol canlynol ar gael hefyd ar ein gwefan yn

<http://www.naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/how-well-are-we-doing?lang=cy>

- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu 2016/17
- Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2016/17
- Adroddiad Rheoleiddio 2016
- Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2016/17

Adrodd Amgylcheddol

Dros y blynyddoedd sydd i ddod, hoffem osod yr esiampl yng Nghymru mewn meysydd gan gynnwys ein ffordd o reoli a defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir, fel yr amlinellir yn ein cynlluniau Corfforaethol a Busnes. Mae adroddiadau corfforaethol am effaith amgylcheddol ein sefydliad ein hunain wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Eleni rydym:

- wedi cyrraedd ein targed i leihau ein hól troed carbon 5% mewn perthynas ag adeiladau a feddiennir, defnyddio ynni a theithio busnes
- wedi cael ardystiad i safon amgylcheddol ISO14001:2015 yn dilyn gwirio ac archwiliadau allanol annibynnol, gan arddangos ein hymrwymiad ein hunain i gyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf posibl fel sefydliad
- wedi cadw Safon Sicrhau Coetir y DU ar gyfer Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru a reolir gennym, yn dilyn gwirio ac archwiliadau allanol annibynnol, gan ein galluogi i gynhyrchu coed a ardystiwyd gan FSC/PEFC² o Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru a reolir gennym
- wedi cael achrediad UK Spill am y tro cyntaf.

Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, byddwn yn dal i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at Adrodd Integredig.



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2017

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio Datganiad o Gyfrifon, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r incwm a'r gwariant, y newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) ac yn benodol â'r canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodir yn FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol
- cadarnhau nad oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol yr oedd archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru'n anymwybodol ohoni a chymryd pob cam i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i Lywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru'n Swyddog Cyfrifyddu iddo. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yw priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu gochelgar a darbodus; osgoi gwastraff ac afradlonedd; a defnyddio'r holl adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol fel y nodwyd yn y Memorandwm i'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

Datganiad Llywodraethu

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu dirprwyedig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion. Fy rôl i yw diogelu cyllid cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau'n effeithiol. O ganlyniad, rwy'n bersonol gyfrifol am y datganiad llywodraethu hwn.

Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon yn ddisgrifiad gwir a theg o'r ffordd y mae'r sefydliad wedi cyflawni ein swyddogaethau eleni. Gallaf gadarnhau hefyd nad oes unrhyw wybodaeth heb ei chynnwys y cefais fy hysbysu amdani neu yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi'i hamlygu i Swyddfa Archwilio Cymru.

Disgrifir holl gwmpas fy nghyfrifoldeb yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a disgrifir cynnwys ychwanegol yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf wedi amlinellu'r canlynol er mwyn arddangos sut yr wyf wedi bodloni'r rôl hon:

- Strwythur llywodraethu
- Adolygiad o effeithiolrwydd
 - Perfformiad y Bwrdd
 - System rheoli mewnol
- Fframwaith rheoli risg
- Barn Archwilio Mewnol

Ein Strwythur Llywodraethu

Penodir ein haelodau Bwrdd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrrff Cyhoeddus, ac fel y cyfryw mae ein Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Ar hyn o bryd, mae gennym ddeuddeg aelod Bwrdd, gan gynnwys fi fy hun yn aelod Gweithredol o'r Bwrdd. Cawn ein harwain gan ein Cadeirydd, Diane McCrea. Mae gweddill y Bwrdd yn cynnwys deg aelod anweithredol. Ni fu unrhyw newidiadau i benodiadau eleni.

Rôl a chyfrifoldeb y Bwrdd yw:

- cyfarwyddo ac arwain yn strategol, sbarduno perfformiad a'n cadw'n atebol mewn perthynas â'n cynlluniau strategol a chorfforaethol
- sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth weithredu'r corff a chadw at saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau statudol a rheoleiddiol, yng ngoleuni'r cyfarwyddyd a'r arweiniad y gallai Gweinidogion eu rhoi
- hyrwyddo'r sefydliad a'i nodau a'i amcanion, yn ogystal â bod yn ddelfryd ymddwyn i staff a rhanddeiliaid
- cydweithio i fagu perthynas â phob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, busnesau, cymunedau a staff a'u cynrychiolwyr
- arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol drwy'r amser, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i helpu i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol ac eraill.

Gweithredwn yn ôl yr egwyddorion a nodwyd yn y Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Parhawn i gefnogi datblygiad a gweithrediad rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, ac ar yr un pryd trawsffurfio ein sefydliad drwy weithredu prosiectau Adolygu Ardal Busnes, yr Adolygiad o Uwch Reolaeth a Rhaglenni Cynllun Sefydliadol.

Bu gweithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn allweddol i'n gwaith eleni, a'r Bwrdd yn gorchwyllo cyhoeddiad ein Hadroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol, Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant cyntaf. Bydd y gwaith hwn yn parhau ac mae'n llywio ein Cynllun Busnes 2017/18 terfynol yn ogystal â'n Cynllun Corfforaethol 2017-22 nesaf.

Cynhaliom chwe chyfarfod yn gyhoeddus ledled Cymru eleni, yn ogystal â nifer o sesiynau datblygu eraill. Mae eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys: lles, iechyd a diogelwch; adroddiadau cyllid a pherfformiad yn ystod y flwyddyn; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Pwyllgorau, a Grwpiau Bwrdd. I gefnogi ein hymrwymiad bod ein gwaith yn agored ac yn hygyrch i bawb, cyhoeddwn ystod eang o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae dyddiadau pob cyfarfod yn y dyfodol ac agendâu, papurau a chofnodion blaenorol ar gael ar ein gwefan naturalresourceswales.gov.uk/about-us/our-chair-board-and-management-team.

Presenoldeb Aelodau Bwrdd

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Diane McCrea (Cadeirydd)	6	5
Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)	6	6
Karen Balmer	6	5
Chris Blake	6	5
Howard Davies	6	6
Dr Ruth Hall	6	4
Zoe Henderson	6	5
Elizabeth Haywood	6	4
Andy Middleton	6	5
Nigel Reader	6	4
Dr Emyr Roberts	6	6
Syr Paul Williams	6	6

Mae gan ein Bwrdd dri is-bwyllgor, a phob un wedi'i gadeirio gan Aelod Bwrdd, ac yn cynnwys o leiaf dau Aelod Bwrdd arall. Yn ogystal â'r tri is-bwyllgor ffurfiol, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Reoli Risg Llifogydd sefydlog. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebiadau am fod ein haelodau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Adolygwyd aelodaeth pob pwyllgor ym mis Ionawr 2016 ar ôl penodi'r Aelodau Bwrdd newydd. Mae cofnodion presenoldeb isod yn amlinellu aelodaeth ein:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Pwyllgor Pobl a Thâl
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yw cynghori'r Bwrdd a chefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu wrth fonitro, craffu a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg. A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, byddaf yn mynychu pob cyfarfod, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, mynychaf bob cyfarfod, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Eleni, aeth ARAC i'r afael ag amrywiaeth o faterion ac yn eu plith:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 a chynlluniau ar gyfer yr adroddiad hwn, 2016/17
- Adolygiad SAC i Gontractau Coed Tymor Hir CNC
- Adroddiadau a chynlluniau archwilio allanol a mewnol
- Y Gofrestr Risg Corfforaethol gan gynnwys nifer o achosion o fanylu ar risgiau penodol

Presenoldeb Aelodau Bwrdd ARAC

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Nigel Reader (Cadeirydd)	5	5
Dr Ruth Hall	5	4
Karen Balmer	5	5
Chris Blake	5	5
Zoe Henderson	1	1

Y Pwyllgor Pobl a Thâl

Mae'r Pwyllgor Pobl a Thâl (PARC), sef ein Pwyllgor Tâl yn flaenorol, yn ystyried materion mewn perthynas â thâl ac amodau cyflogaeth ein Tîm Gweithredol a'r strategaeth dâl gyffredinol i'r holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu megis y Grŵp Cynghori ar y Trawsffurfio i fonitro ac adolygu pob mater trawsffurfio.

Rwyf fi hefyd yn mynychu pob cyfarfod, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, a'n Cyfarwyddwr Portffolio Trawsffurfio.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Cynllun Gwerthuso Swydd
- Cynllun Diswyddo Cynnar Gwirfoddol
- Lles, Iechyd a Diogelwch
- Newidiadau i Gynlluniau Pensiwn
- Penodiadau a thâl Cyfarwyddwyr
- Y rhaglen drawsffurfio

Presenoldeb Aelodau Bwrdd PARC

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Sir Paul Williams (Cadeirydd)	5	5
Nigel Reader	5	5
Karen Balmer	5	5
Zoë Henderson	5	5

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gwrthwynebiadau i hysbysiad a dadhysbysiad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PAC). Mae aelodau PAC hefyd yn cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd llawn drwy gynghori ar faterion ardaloedd gwarchoddedig ehangach a gwaith achos strategol.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r pwyllgor yn ystyried gwrthwynebiadau ac yn cadarnhau dynodiad tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) newydd.

Presenoldeb Aelodau Bwrdd PAC

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Andy Middleton (Cadeirydd)	1	1
Howard Davies	1	1
Zoe Henderson	1	1
Dr Madeleine Havard	1	1
Elizabeth Haywood	1	1
Syr Paul Williams	1	1

Grŵp Cynghori ar Reoli Risg Llifogydd

Grŵp cynghori yw hwn ac mae'n adrodd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd ar gyfer heddiw a'r dyfodol, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar waith cysylltiedig â rheoli risg llifogydd yng Nghymru.

Mynychir y grŵp gan bedwar aelod o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Risg Llifogydd a Digwyddiadau, a'r Pennaeth Cyllid Busnes.

Bydd y grŵp yn cwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn ac yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2017 bu'n adolygu meysydd gan gynnwys:

- blaenoriaethu Gweithgareddau Rheoli Risg Llifogydd
- llywodraethu Rhaglen Gyfalaf Rheoli Risg Llifogydd
- y Cynllun Tymor Canolig diweddaraf i'n Rhaglen Gyfalaf
- cyfraddau a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2017/18.

Presenoldeb Aelodau Bwrdd yn y Grŵp Cyngori ar Reoli Risg Llifogydd

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Dr Madeleine Havard (Cadeirydd)	1	1
Nigel Reader	1	1
Karen Balmer	1	1
Elizabeth Haywood	1	1

Grwpiau Bwrdd

Y tu hwnt i'n cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Aelodau Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu strategol drwy grwpiau 'gorchwyl a gorffen' gan roi cyngor yn ôl y gofyn ar feysydd gwaith penodol e.e. ein cynllun codi tâl, adrodd am berfformiad.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn dilyn newidiadau sylweddol i'n haelodaeth Bwrdd yn ystod 2015/16, cytunasom i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2016 gan ganiatáu i'n perthnasoedd gwaith newydd ddatblygu. Cynhaliom weithdy, a hwyluswyd gan Academi Wales, ym mis Hydref 2016, i ystyried ein dull o osod strategaeth, darparu arweinyddiaeth a chraffu ar gyflenwi mewn perthynas â chyfres o ddangosyddion i helpu i adnabod Sefydliad sy'n Perfformio'n Dda. Yn dilyn hyn, atebodd yr Aelodau Bwrdd holiadur ar-lein ar sail *Datgloi holl botensial eich Bwrdd – Holiadur Gwerthuso Bwrdd* y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ganfod gwaelodlin newydd o farn yr aelodau cyfredol am effeithiolrwydd y Bwrdd. Rydym bellach yn datblygu rhaglen waith i gyfuno cynnyrch y ddau ymarfer hyn a fydd yn arwain at gwblhau rhaglen barhaus o gamau gweithredu, gan gynnwys rhaglen wella barhaus, a chynhyrchion penodol yn cael eu cwblhau dros y 12 mis nesaf.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) adolygiad blynyddol hefyd o'i effeithiolrwydd drwy gwblhau holiadur ar sail rhestr wirio a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'r meini prawf yn deillio'n bennaf o Lawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Ar y cyfan, ystyriwyd bod ARAC yn effeithiol iawn, a mwyafrif y trefniadau a'r prosesau allweddol yn eu lle. Fodd bynnag, amlygodd yr ymarfer fod nifer fach o faterion ychwanegol y gallai'r Pwyllgor eu hystyried yn rhan o'i rôl sicrhau. Lluniwyd cynllun ymsefydlu i gefnogi aelodau ARAC newydd, yn ogystal â chynllun i gynnal sesiynau caeedig blynyddol gyda'r Prif Weithredwr a'r archwilwyr Allanol a Mewnol i roi cyfle i fwy o annibyniaeth a thryloywder os yw'n ofynnol.

Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Gosodir ein strwythur, polisiau a gweithdrefnau sefydliadol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae ein harweinyddiaeth yn gyson â rolau a chyfrifoldebau disgwylidig uwch reolwyr; mae gweithdrefnau ategol ar waith i sicrhau bod rolau bwrdd yn gallu gweithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir i sicrhau atebolrwydd ac mae rheolaethau mewnol allweddol ar waith; ystyri'r tâl gan aelodau anweithredol i sicrhau annibyniaeth a chawn gyfarfodydd rheolaidd â'n rhanddeiliaid allweddol i gynnal perthynas waith adeiladol.

Ein Tîm Gweithredol

Ein Tîm Gweithredol sy'n rheoli ein sefydliad o ddydd i ddydd. A minnau'n Brif Weithredwr, fi sy'n cadeirio'r cyfarfodydd gyda phum Cyfarwyddwr Gweithredol a dau Gyfarwyddwr yn bresennol. Byddwn yn cyfarfod yn ffurfiol bob tair wythnos. Mae ein cyfarfodydd Busnes yn

ymdrin â materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg, ac maent yn monitro perfformiad y sefydliad; mae cyfarfodydd Strategaeth a Pholisi yn datblygu strategaeth ar gyfer y sefydliad ac yn argymhell polisi sefyllfa newydd i'r Bwrdd; ac rydym yn cyfarfod fel Bwrdd Rhaglen Newid i gael ac ystyried diweddariadau am y Portffolio Trawsffurfio.

Mae gan bob Cyfarwyddiaeth ei Chynllun Cyflenwi ei hun, sy'n gysylltiedig â thargedau a chanlyniadau corfforaethol yn y Cynllun Busnes blynyddol. Adolygir y rhain yn fisol gydag aelodau eu Tîm Arwain ac maent yn cyfrannu at y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol, y rhoir gwybod amdano i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru deirgwaith y flwyddyn.

Cyfarwyddyd Gweinidogol

Nid ydym wedi cael unrhyw Gyfarwyddyd Gweinidogol eleni.

Ein Fframwaith Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo ein polisi Rheoli Risg ac mae'n gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r polisi a'r broses. Ar sail canllawiau Trysorlys EM ar gyfer rheoli risgiau, yr amcan allweddol yw sicrhau bod gennym fodd cyson o adnabod, mesur, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau.

Wynebwn ystod eang o risgiau ar draws ein cyfrifoldebau felly nid yw'n briodol gwneud un datganiad cyffredinol am ein hagwedd at risg. Cymeradwyodd y Bwrdd Ddatganiad Blas am Risg wedi'i ddiweddarau ym mis Medi 2016 a oedd yn amlinellu meini prawf asesu newydd wrth ystyried risgiau a chyfleoedd ariannol, gweithredol ac i'n henw da, ac a oedd yn egluro pryd mae uwchgyfeirio a dirprwyo gwaith rheoli risg yn y sefydliad.

Caiff ein risgiau pob dydd eu hadnabod, eu gwerthuso a'u rheoli ar nifer o wahanol lefelau. Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol yn unol â chyflawni amcanion strategol. Mae'r Bwrdd yn cadw perchenogaeth ar y risgiau corfforaethol allweddol, ond mae'n defnyddio ARAC i graffu ar ein prosesau rheoli risg, yn ogystal â manylu ar risgiau a materion penodol. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol yn rheoli Cofrestrï Risg Cyfarwyddiaeth yn unol â chyflawni eu targedau a'u canlyniadau yn eu Cynllun Cyflenwi Cyfarwyddiaeth. Adolygir y rhain yn rheolaidd ac rwy'n eu trafod yn ystod eu hadolygiadau perfformiad.

Roedd risgiau allweddol a nodwyd ac a reolwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ymateb i'r gostyngiad tymor byr yn ein cymorth grant a chynllunio ar gyfer heriau ariannol parhaus
- sicrhau ein bod wedi paratoi'n llawn at yr heriau newydd sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
- rheoli enw da ynghylch prosiectau buddiant cenedlaethol e.e. Morlyn Llanw Bae Abertawe, Ffordd Liniaru'r M4, Ynys Ynni Môn etc.
- gweithredu cynllun gwerthuso swydd

Sicrhau Gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod data a gwybodaeth wedi'u llywodraethu a'u rheoli'n dda ac wedi parhau i weithio i gael y cydbwysedd cywir rhwng didwylledd a diogelwch, gan wneud yn siŵr y caiff staff a chwsmeriaid eu sicrhau am y lefelau uchaf o amddiffyniad. Ers i'n Cyfarwyddwr Llywodraethu ymadael, mae ein Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth wedi cymryd awenau'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Rydym wedi ymdrechu'n benodol yn ystod y flwyddyn i gyfuno'r broses o weithredu Polisiâu a Gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth perthnasol, yn ogystal â datblygu ein trefniadau

i ymdrin â digwyddiadau diogelwch gwybodaeth. Mae'r SIRO newydd wrthi'n datblygu rhaglen waith ar gyfer 2017/18 sy'n blaenoriaethu cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a mynd i'r afael â materion fel ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff cyffredinol ynghylch meysydd allweddol diogelwch gwybodaeth, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau a gyflwynir i sefydliadau sector cyhoeddus gan ymosodiadau seiber mwyfwy soffistigedig.

Effeithiolrwydd Rheoli Mewnol

Mae aelodau fy Nhîm Gweithredol bob un wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd a chwblhau Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol a oedd yn gofyn iddynt wneud asesiad ar sail tystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd ar waith ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth.

Ar y cyfan, mae'r canlyniadau eleni'n gadarnhaol o hyd gydag aelodau'r Tîm Gweithredol yn cadarnhau bod ein fframwaith rheoli'n dal i ddatblygu a chymhwyso ar draws pob maes gwaith. Mae polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu cyflwyno neu eu diwygio o hyd yn ôl yr angen i addasu i newidiadau allanol neu fylchau mewnol a nodwyd. Mae rheoleidd-dra'r cymhwyso yn broblem mewn rhai meysydd e.e. rheoli risg, oherwydd blaenoriaethu prosiectau allweddol eraill o hyd e.e. gwerthuso swydd; mae'r rheolwyr yn ymwybodol o hyn a byddant yn ceisio canolbwyntio o'r newydd ar gysondeb. Mae cymhwyso egwyddorion rheoli cofnodion ynghyd â rheoli gwybodaeth etifeddol yn bryder o hyd wrth i'r staff geisio cadw'r gwaith pob dydd a rheoli'r sympau data a drosglwyddwyd i CNC; bydd cynllun gweithredu gan y Tîm Gweithredol yn mynd i'r afael â hyn drwy 2017/18.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban a gweithdrefn adrodd sefydledig ar waith i godi pryderon difrifol am gamymddygiad neu amhriodoldeb. Ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion ffurfiol eleni ond codwyd pryderon mewn perthynas â thwyll posibl o dan ein polisiâu Atal Twyll ac Atal Llwgrwobrwyo a Llygru. Rhwir gwybod am y rhain i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac ymdriniwyd â hwy gan ddefnyddio gweithdrefnau ac ymchwilyr mewnol hyfforddedig.

Mae ein tîm Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei gynllun archwilio blynyddol, gyda chynnydd ac adborth rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y llynedd, amlygais fod nifer y camau gweithredu heb eu cymryd yn cynyddu. Rwy'n falch bod hyn wedi gwella'n fawr, a mwyafrif y camau archwilio wedi'u cwblhau cyn pen yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Dyma farn y Rheolwr Archwilio Mewnol, fel y'i nodwyd yn ei adroddiad sicrhau blynyddol:

Yn fy marn i, gall Cyfoeth Naturiol Cymru gael sicrwydd Cymedrol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol ei amgylchedd rheoli mewnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

Yn ystod y flwyddyn, mae CNC wedi parhau i gynnal nifer o fentrau newid mawr. Mae ffocws ar y mentrau hynny wedi tynnu sylw'r rheolwyr oddi ar welliannau sefydliadol eraill, fel ym maes Rheoli Risg. O ganlyniad, mae hwn yn wendid sylweddol o hyd. Mae cynlluniau'n cael eu gwneud i gryfhau'r maes hwn a bydd ARAC yn chwarae rhan allweddol mewn herio cadernid y prosesau adnabod, uwchgyfeirio a lliniaru risg.

Mae CNC wrthi'n cyflwyno cynllun sefydliadol newydd a disgwylir iddo wella ei lywodraethu ymhellach, sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli risg yn effeithiol.

Archwilio Allanol

Yn ystod ein harchwiliad ariannol 2015/16, cafodd SAC wybodaeth a arweiniodd at adolygiad o'r ffordd yr oeddem wedi dyrannu contractau coed tymor hir yn 2013/14. O ganlyniad, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol am ein cyfrifon 2015/16 ar sail rheoleidd-dra. Dyfarnwyd y contractau hyn ar adeg pan oeddem yn ymdrin â chynnydd sylweddol yn lledaeniad clefyd *P. ramorum* ac yn paratoi i gwmpo miliynau o goed heintiedig. Helpodd y contractau hyn i'r diwydiant coed addasu i'r cynnydd sylweddol mewn llarwydd heintiedig a oedd yn cyrraedd y farchnad. Terfynwyd y contract gwerthiannau yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2017 ac rydym wedi rhoi trefniadau trosiannol ar waith i ddod â choed i'r farchnad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu o'r adolygiad hwn.

Mae gennym gynllun gweithredu ar waith erbyn hyn i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad dilynol gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a gyflenwir yn ystod y chwe mis nesaf. Bydd cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu yn cael ei oruchwyllo gan ARAC ar ran Bwrdd CNC.



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2017

Adroddiad Tâl a Staff (archwiliedig)

Polisi tâl

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Thâl i ystyried materion sy'n gysylltiedig â thal ac amodau cyflogaeth y staff uchaf a'r strategaeth dâl gyffredinol i'r holl staff a gyflogir gan CNC. Mae'r Pwyllgor Pobl a Thâl yn cynnwys pedwar aelod Bwrdd anweithredol. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r Pwyllgor.

Gosodir tâl y Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae'r telerau contract i gyflogeion uwch (aelodau'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Nid yw'r polisi tâl i'r staff uchaf yn destun cydfargeinio a gosodir y pecyn tâl drwy gyfeirio at gyfres o rolau meincnod yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru ac at sefydliadau tebyg yn y DU. Mae dringo i'r (gyfradd) meincnod (ar gyfer y swydd) yn amodol ar berfformiad boddhaol. Dim ond ar sail perfformiad eithriadol cyson y defnyddir y ddau bwynt tâl uchaf. Nid oedd unrhyw fargen dâl ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2016 a 30 Mehefin 2017. Cafodd ei gohirio yn disgwyl gweithredu ein cynllun Gwerthuso Swydd newydd a'r strwythur tâl a graddio newydd cysylltiedig.

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum Undeb Llafur a gosodir telerau ac amodau i'r staff islaw aelodau'r Tîm Gweithredol drwy gytundeb cyfunol â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i dâl, telerau ac amodau ac mae'n rhoi cylch gwaith tâl i CNC y mae'n rhaid iddo ei ddilyn. Cafodd bargaen dâl yn ymdrin â'r cyfnod 1 Gorffennaf 2015 i 30 Mehefin 2016 ei chyd-drafod yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2015. Cafodd staff y Bwrdd Draenio Mewnol blaenorol ddyfarniad cyflog o 1 Ebrill 2015 i 30 Mehefin 2016 i unioni dyddiadau dyfarnu cyflog.

Contractau gwasanaeth

Gwneir yr holl benodiadau i'r Bwrdd ar ran y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol. Gwneir penodiadau fel arfer naill ai am ddwy neu dair blynedd.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi dan gontractau parhaol. Gwneir penodiadau yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n gofyn bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir fel arall isod, mae aelodau'r Tîm Gweithredol sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Mae gofyn i'r swyddogion hyn ac aelodau Bwrdd roi tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

Hawliau cyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar dâl aelodau'r Bwrdd a buddion tâl a phensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Sifil na chael buddion eraill. Byddai terfynu cynnar, am rywbeth heblaw camymddwyn, yn arwain at aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael iawndal yn gyson â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Ni chaiff aelodau Bwrdd hawlio iawndal.

Tâl yr Aelodau Bwrdd

Aelod Bwrdd	Contract Cyflogaeth	Cyflog 2016/17 (amrediad £5,000)	Cyflog 2015/16 (amrediad £5,000)
Karen Balmer ¹	9-11-15 i 8-11-17	10-15	0-5
Chris Blake ¹	9-11-15 i 8-11-17	10-15	0-5
Howard Davies ¹	9-11-15 i 8-11-17	10-15	0-5
Y Parch. Hywel Davies ²	1-11-12 i 31-10-15	0	10-15
Dr Ruth Hall CB ³	1-11-12 i 31-10-17	10-15	15-20
Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)	1-11-12 i 31-10-17	15-20	20-25
Elizabeth Haywood ¹	9-11-15 i 8-11-17	10-15	0-5
Zoë Henderson ¹	9-11-15 i 8-11-17	10-15	0-5
Harry Legge-Bourke ²	1-11-12 i 31-10-15	0	10-15
Diane McCrea (Cadeirydd) MBE ⁵	1-12-15 i 30-11-18	40-45	5-10
Yr Athro Peter Matthews CBE (Cadeirydd) ⁶	1-08-12 i 31-11-15	0	30-35
Andy Middleton ⁷	1-11-12 i 31-10-17	10-15	15-20
Nigel Reader ⁸ CBE	1-11-12 i 31-10-17	15-20	20-25
Yr Athro Lynda Warren ²	1-11-12 i 31-10-15	0	10-15
Syr Paul Williams ⁹ OBE	1-11-12 i 31-10-17	15-20	20-25

¹ Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £10,000-£15,000.

² Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £20,000-£25,000.

³ Ailbenodwyd Ruth Hall ar 1 Tachwedd 2015 am dymor arall i ddod i ben ar 31 Hydref 2017. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £10,000-£15,000.

⁴ Ailbenodwyd Madeleine Havard ar 1 Tachwedd 2015 am dymor arall i ddod i ben ar 31 Hydref 2017. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gadeirydd o fis Rhagfyr 2015. Hi hefyd yw Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Lifogydd. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £20,000-£25,000.

⁵ Cyflog cywerth â blwyddyn lawn Diane McCrea ar gyfer 2015/16 ar sail 72 diwrnod y flwyddyn yw £25,000-£30,000. Mae ei hymrwymiad amser o 1 Medi 2016 i 31 Awst wedi cynyddu i 96 diwrnod. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 1 Ebrill 2016 i 31 Awst 2016 yw £30,000-£35,000 ac ar gyfer 1 Medi 2016 i 31 Mawrth 2017 yw £40,000-£45,000.

⁶ Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £50,000-£55,000.

⁷ Ailbenodwyd Andy Middleton ar 1 Tachwedd 2015 am dymor arall i ddod i ben ar 31 Hydref 2017. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £10,000-£15,000.

⁸ Ailbenodwyd Nigel Reader ar 1 Tachwedd 2015 am dymor arall i ddod i ben ar 31 Hydref 2017. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £15,000-£20,000.

⁹ Ailbenodwyd Syr Paul Williams ar 1 Tachwedd 2015 am dymor arall i ddod i ben ar 31 Hydref 2017. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thâl a'r Grŵp Cyngori ar y Trawsffurfio. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £15,000-£20,000.

Tâl y Tîm Gweithredol

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Cyflog (amrediad £5,000)		Buddion o fath arall ⁶ (y £100 agosaf)		Buddion pensiwn ⁷ (y £1,000 agosaf)		Cyfanswm (amrediad £5,000)	
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16
	Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	145-150	145-150	0	0	26,000	45,000	170-175
Martin Britton ¹	0	65-70	0	0	0	26,000	0	95-100
Ceri Davies	100-105	95-100	0	2,400	40,000	47,000	140-145	145-150
Ashleigh Dunn	90-95	90-95	0	0	36,000	35,000	125-130	125-130
Graham Hillier ²	0	5-10	0	0	0	11,000	0	15-20
Kevin Ingram	95-100	90-95	0	4,000	36,000	35,000	130-135	130-135
Tim Jones	90-95	90-95	0	2,700	13,000	40,000	100-105	130-135
Gareth O'Shea ³	90-95	85-90	0	2,800	34,000	179,000	120-125	265-270
Trefor Owen ⁴	0	90-95	0	0	0	34,000	0	125-130
Niall Reynolds	75-80	75-80	0	0	26,000	(7,000)	100-105	70-75
Catherine Smith	75-80	75-80	0	0	30,000	29,000	105-110	100-105
Clive Thomas ⁵	40-45	75-80	0	0	72,000	48,000	115-120	120-125

¹ Gorffennodd Martin Britton ar 31 Rhagfyr 2015. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £90,000-£95,000.

² Gorffennodd Graham Hillier ar 26 Ebrill 2015. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2015/16 yw £90,000-£95,000.

³ Penodwyd Gareth O'Shea yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r De ar 27 Ebrill 2015. Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer 2015/16 am y cyfnod 27/04/15 i 31/03/16. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £90,000-£95,000.

⁴ Gorffennodd Trefor Owen ar 31 Mawrth 2016.

⁵ Gorffennodd Clive Thomas ar 31 Hydref 2016. Y cyflog cywerth â blwyddyn lawn yw £75,000-£80,000.

⁶ Yn gysylltiedig â darparu car a ddyrannwyd.

⁷ Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20, yn ogystal â'r cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad, llai'r cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys symiau pensynadwy a symiau nad ydynt yn bensynadwy, ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n destun trethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau yr aethpwyd iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau unigolyn.

Tâl ar sail perfformiad

I'r Tîm Gweithredol, mae symud rhwng y pwyntiau tâl yn amodol ar asesiad perfformiad gan y Prif Weithredwr a chymedroli gan y Pwyllgor Pobl a Thâl. Bydd unrhyw achos o symud rhwng y pwyntiau meincnod yn digwydd oherwydd perfformiad eithriadol cyson yn unig fel y'i hasesir gan y Prif Weithredwr ac fel y'i cadarnheir gan y Pwyllgor Pobl a Thâl.

Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol buddion o fath arall yn cynnwys unrhyw fuddion a roddir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel tâl trethadwy. Mae'r rhai a ddangosir uchod ar gyfer 2015/16 yn gysylltiedig â darparu ceir pryddles a ddyrannwyd.

Ni chafodd yr un o'r aelodau Bwrdd na'r staff uwch unrhyw dâl heblaw hwnnw a ddangosir uchod.

Buddion Pensiwn

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Pensiwn Cronedig adeg oedran pensiwn fel ar 31/03/17 £000	Cyfundaliad Cronedig adeg oedran pensiwn fel ar 31/03/17 £000	Cynnydd Real mewn pensiwn adeg oedran pensiwn £000	Cynnydd Real mewn Cyfundaliad Cronedig adeg oedran pensiwn £000	CETV ar 31/03/17 £000	CETV ar 31/03/16 £000	Cynnydd Real mewn CETV £000
Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	65-70	195-200	0-2.5	2.5-5	1476	1388	25
Ceri Davies	35-40	65-70	0-2.5	0-2.5	656	602	21
Ashleigh Dunn	5-10	0	0-2.5	0	72	40	24
Kevin Ingram	25-30	40-45	0-2.5	0-2.5	380	343	15
Tim Jones	35-40	110-115	0-2.5	2.5-5	749	703	10
Gareth O'Shea	35-40	75-80	0-2.5	0-2.5	619	574	15
Niall Reynolds	35-40	65-70	0-2.5	0-2.5	642	599	14
Catherine Smith	0-5	0	0-2.5	0	48	31	11
Clive Thomas ¹	25-30	60-65	5-7.5	0	461	390	1

¹ tan 31 Hydref 2016

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog wedi'i asesu ar sail tybiaethau actwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion sy'n cael eu priso yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV sy'n cael ei wneud gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniant pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Caiff CETV eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sydd o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd real mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gaiff ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu

drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

lawndal am golli swydd

Gadawodd Clive Thomas o dan delerau Ymadael Gwirfoddol ar 31 Hydref 2016. Cafodd iawndal o £95,000-£100,000 yn gyson â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Datgeliad tâl teg

Mae gofyn i CNC a chyrrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Yn 2016/17, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2015/16: dim) dâl yn fwy na'r cyfarwyddwr a dalwyd fwyaf. Tâl bandog y Cyfarwyddwr a dalwyd fwyaf ym mlwyddyn ariannol 2016/17 oedd £145,000-£150,000 (2015/16: £145,000-£150,000). Roedd hwn 5.2 gwaith (2015/16: 5.2 gwaith) tâl canolrifol y gweithlu sef £28,215 (2015/16: £28,215). Mae graddfeydd cyflog y staff yn amrywio o £12,250 i £64,424 (2015/16 £12,250 i £64,424 (ailddatganwyd)). Dangosir tâl y Cyfarwyddwyr yn y tabl uchod.

Nifer y staff yn ôl cyfrif pennau a niferoedd cywerth ag amser llawn (FTE) ar 31 Mawrth 2017.

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Cyfrif pennau	FTE	Cyfrif pennau	FTE	Cyfrif pennau	FTE
Yr holl gyflogeion	1,190	1,096	858	758	2,048	1,855
ac ohonynt:						
Y Tîm Arwain	14	14	6	5	20	19
Y Tîm Gweithredol	5	5	3	3	8	8

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

	2016/17		2015/16	
	Staff Parhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogwyd yn uniongyrchol	1,790	44	1,834	1,912
Staff asiantaeth a chontract	0	73	73	89
Cyfanswm	1,790	117	1,907	2,001

Nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn y staff a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 122.6 (2015/16: 75.8).

Costau staff

	2016/17		2015/16	
	Staff Parhaol £'000	Staff Eraill £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Cyflog a phae	56,456	5,595	62,051	65,569
Costau nawdd cymdeithasol	5,810	45	5,855	4,824
Costau pensiwn eraill	13,104	156	13,260	13,465
Cyfanswm costau cyflog net	75,370	5,796	81,166	83,858
Gwariant arall i staff	Nodyn			
Costau pecyn ymadael			4,935	132
Tâl gwasanaeth ychwanegol (Pensiynau) IAS	13		8,710	8,325
Llai costau pensiwn ymddeol cynnar			(638)	(144)
Llai cyfraniadau pensiwn LGPS yn ystod y flwyddyn			(7,558)	(7,936)
Trosglwyddo i Ddarpariaeth ar gyfer lawndaliadau Blynyddol			78	(2)
Costau staff eraill			4	341
Symudiad mewn Tâl Gwyliau a Gronnwyd			16	(159)
Cyfanswm gwariant arall i staff			5,547	557
Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(5,208)	(3,176)
Cyfanswm costau staff			81,505	81,239

Mae manylion rhwymedigaethau pensiwn CNC ar gael yn nodyn 13.

Mae manylion tâl aelodau Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad tâl.

Mae gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (Gwariant arall) yn cynnwys gwario £5.1m ar ymgynghorwyr.

Cynlluniau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun agored ac mae CNC yn aelod caeedig o Gronfa Pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir manylion pellach y cynlluniau pensiwn hyn isod.

Cyfraniadau at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau cyflogwr lluosog heb eu hariannu â buddion wedi'u diffinio ond ni all CNC nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cafodd PCSPS ei brisio gan actwari'r cynllun fel ar 31 Mawrth 2012. Mae'r manylion ar gael yng nghyfrifon adnodd Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn: www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/

Ar gyfer 2016/17, roedd £5,658k o gyfraniadau cyflogwr yn daladwy i'r PCSPS (2015/16 £5,663k) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr fel arfer

bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Gosodir y cyfraddau cyfraniad i fodloni cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2016/17 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Pensiynau partneriaeth cyfranddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd £44k o gyfraniadau cyflogwr (2015/16: 44k) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac amrywiant o 8% i 14.7%. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdal.

Cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gwna CNC daliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) drwy Capita, gweinyddwyr y gronfa pensiwn.

Cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus cyfraniad diffiniedig statudol wedi'i ariannu yw LGPS. Mae Hymans Robertson, yr actwari ar gyfer EAPF, yn cynnal prisiad teirblwydd o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa er mwyn sicrhau bod buddion LGPS yn cael eu hariannu'n briodol. Mae asedau'r gronfa ar gyfer bodloni rhwymedigaethau pensiwn y dyfodol. Prif ddiben y prisiad actwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a gosod lefel cyfraniadau'r dyfodol ar gyfer cyflogwyr yn y gronfa. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf fel ar 31 Mawrth 2016 i osod y cyllid ar gyfer y cyfnod tair blynedd o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020.

Mae gan CNC gytundeb derbyn cymunedol gydag EAPF er mwyn cyfranogi yn LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol o ran staff blaenorol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddodd i CNC ar 1 Ebrill 2013. Trosglwyddodd hefyd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau yn cael eu talu ac aelodau gohiriedig). Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau gwarant gydag EAPF i'w digolledu am unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o gyfranogiad CNC yn EAPF.

Ar gyfer 2016/17 cyfradd cyfraniad y cyflogwr oedd 21.2% (2015/16: 21.2%). Yn 2016/17 talwyd £7,558k o gyfraniadau cyflogwr i LGPS (2015/16: £7,936k).

Pecynnau ymadael

Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost:	2016/17	2015/16
O dan £10,000	3	4
£10,001 - £25,000	15	3
£25,001 - £50,000	43	0
£50,001 - £100,000	43	0
£100,001 - £150,000	0	0
Cyfanswm	104	7

Y cyfanswm cost adnodd ar gyfer 2016/17 oedd £4,885k (2015/16: £63k)

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2016/17 nac yn 2015/16.

Talwyd y costau ymadael gwirfoddol yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn yn y flwyddyn y cytunir arnynt.

Lle cytunodd y cyrff etifeddol ar ymddeoliadau cynnar, cyfrifwyd am y costau yn llawn yn y flwyddyn y cytunwyd arnynt a gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir yr iawndaliadau blynyddol o ran y rhain yn Nodyn 12 (Darpariaethau).

Talir costau ymddeol oherwydd salwch gan y cynlluniau pensiwn ac ni chânt eu cynnwys yn y tabl.

Absenoldeb oherwydd Salwch (Heb ei archwilio)

Roedd ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017) yn dangos cyfartaledd o 7.1 diwrnod a gollwyd fesul cyflogai ac mae'n gywerth â 3.2%. Roedd hwn mewn perthynas â tharged o hyd at 7 diwrnod wedi'u colli ar gyfartaledd, syn gywerth â 3.1% o ddiwrnodau gweithio sydd ar gael.

Polisiau Anabledd (heb eu harchwilio)

Yn ystod 2016/17, archwiliwyd CNC am ein gwaith ar yr agenda anabledd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ym mis Awst 2016, dyfarnwyd inni statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a oedd yn disodli Cynllun y Tic Dwbl. Cynigiwn gyfweiliad sicr i ymgeiswyr sy'n datgan anabledd ac sy'n bodloni meini prawf lleiaf y swydd ac rydym yn cydymffurfio 100% â'r ymrwymiad hwn.

Mae gennym rwydwaith staff Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr gweithgar sy'n rhoi cyngor a barn am faterion teleffoni a TG newydd a phresennol i aelodau o staff sy'n cael addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i'w gweithle.

Gyda gweithlu sy'n heneiddio, mae'n bwysig i ni ein bod yn cydnabod ac yn cefnogi pobl sy'n dioddef o ddementia ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru i gyflawni hyn dros y tair blynedd nesaf. Mae gennym gyfres o amcanion cyfeillgar i ddementia yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 2017/18.

Ar y tu allan, rydym yn weithgar ar yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn sicrhau bod lleisiau pobl anabl, ynghyd â phob nodwedd warchoddedig arall, yn cael eu clywed, y gwrandawir arnynt ac y gweithredir yn eu cylch. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb i helpu i ddenu pawb i ddefnyddio ein manau awyr agored gan gadw pobl yn iach ac mewn cysylltiad â'u hadnoddau naturiol.

Penodiadau oddi ar y gyflogres (Heb eu harchwilio)

Yn 2012 cyhoeddodd y Trysorlys adolygiad o drefniadau treth penodai sector cyhoeddus er mwyn pennu graddau trefniadau a allai alluogi penodai sector cyhoeddus i leihau ei daliadau treth. Daeth yr adolygiad i'r casgliad:

- fod rhaid i'r staff uchaf fod ar y gyflogres, heblaw bod amgylchiadau dros dro eithriadol a fyddai'n mynnu eu tynnu oddi arni gan y Swyddog Cyfrifyddu ac na allent bara mwy na chwe mis

- rhaid bod adrannau (a'u cyrff hyd braich) yn gallu ceisio sicrwydd ffurfiol gan contractwyr gyda threfniadau oddi ar y gyflogres yn para mwy na chwe mis ac yn costio dros £220 y dydd y bodlonir rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol. Os na roir y sicrwydd hwnnw, dylai contractau gael eu terfynu.
- Mae gofyn i adrannau (a'u cyrff hyd braich) adrodd i'r Senedd yn rhan o'u Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon am ganlyniad cymhwyso'r egwyddorion uchod.

Dengys y tablau canlynol ein sefyllfa mewn perthynas â'r casgliadau hyn.

Ar gyfer pob penodiad oddi ar y gyflogres fel o 31 Mawrth 2017, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para dros chwe mis	Nifer y contractwyr
Cyfanswm y penodiadau presennol fel o 31 Mawrth 2017 ac ohonynt:	26
Y nifer sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn adeg adrodd	7
Y nifer sydd wedi bodoli rhwng blwyddyn a dwy adeg adrodd	5
Y nifer sydd wedi bodoli rhwng dwy a tair blynedd adeg adrodd	12
Y nifer sydd wedi bodoli rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd	2
Y nifer sydd wedi bodoli pedair blynedd neu ragor adeg adrodd	0

Ar gyfer pob penodiad newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rheini a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis	Nifer y contractwyr
Nifer y penodiadau newydd, neu'r rheini a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, yn ystod y cyfnod.	6
Nifer y penodiadau hyn sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol.	6
Y nifer y gofynnwyd am sicrwydd amdanynt	6
Ac ohonynt	
<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer y gofynnwyd am sicrwydd amdanynt ac y cafwyd y sicrwydd hwnnw. 	6
<ul style="list-style-type: none"> • Y nifer y gofynnwyd am sicrwydd amdanynt ond ni chafwyd y sicrwydd hwnnw. 	0
Y nifer a derfynwyd o ganlyniad i beidio â chael sicrwydd.	0

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio (archwiliedig)

Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn mynnu y datgelir colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth lle maent yn fwy na £300k o gyfanswm ac am unrhyw eitemau unigol uwchlaw £300k.

Colledion unigol sy'n fwy na £300k

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig dros £300k drwy gydol 2016/17.

Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Dengys y tabl isod nifer y dileadau a'r ceisiadau am daliad arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Categori neu fath o golled	2016/17 Nifer	2016/17 £'000	2015/16 Nifer	2015/16 £'000
Dileu dyledion nad ellir eu hadennill	59	107	56	280
Dileu Prosiect Cymunedau a Natur	0	0	1	57
Colli asedau	6	66	135	456
Colledion eraill (colledion arian parod, taliadau diffwrth, hawliadau nad ellir eu gorfodi, taliadau arbennig neu roddion)	15	914	15	57
Cyfanswm	80	1087	207	850

O fewn Colledion Eraill, mae naw iawndal sy'n dod i £825k mewn perthynas ag Adolygiad Echdynnu Dŵr Gwy a Llugwy. Mae'r gost yn cael ei thalu gan gynllun Tâl Uned Gwella Amgylcheddol (EIUC) CNC.



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2017

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o lif Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Pharagraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn hwnnw a sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf o'r farn bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer y farn archwilio amodol ar reoleidd-dra.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn yr adroddiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wneir gan Gyfoeth Naturiol Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gefais yn ystod cyflawni'r archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sy'n ymddangos yn berthnasol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif a'm hadroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2017 ac o'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra

Mae Nodyn 6 i'r datganiadau ariannol yn cofnodi incwm coed o £16 miliwn yn 2016-17 (£16.5 miliwn yn 2015-16).

Rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra yn 2015-16 mewn perthynas â dyfarnu cyfres o gontractau gwerthu coed. Rwyf hefyd wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra yn 2016-17 ar gyfer yr un mater:

O dan fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n ofynnol cyfeirio unrhyw weithgareddau sy'n ymddangos yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol at ei adran noddi yn Llywodraeth Cymru. Ni chyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at ei adran noddi ei benderfyniad i ymgymryd â chyfres o gontractau cysylltiedig i werthu coed yr wyf o'r farn eu bod yn ddadleuol ac adleisiol. Felly, rwyf o'r farn bod y trafodion yn ymwneud â'r contractau hyn yn afreolaidd. Gan fod y trafodion hyn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

At hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad am yr un trafodion hyn o ran cyfreithlondeb gwneud y penderfyniadau a chydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol. Felly, nid oeddwn yn gallu bodloni fy hun am gyfreithlondeb y trafodion, ac felly rwyf hefyd wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

Barn amodol ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ar wahân i effeithiau methu cydymffurfio â'i fframwaith awdurdod ac effeithiau posibl tystiolaeth annigonol i lunio casgliad am gydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau a chydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol, fel y disgrifiwyd yn y paragraffau uchod 'sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra', ym mhob agwedd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol rwyf yn adrodd i chi os digwydd y canlynol, yn fy marn i:

- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfio â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- os nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- os na ddatgelir y wybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill

Ar wahân i'r trafodion y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau uchod 'sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra', rwyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Ar 2 Mawrth 2017 cyhoeddais Adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â dyfarnu cyfres o gontractau gwerthu coed.

Rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra 2016-17 ar gyfer yr un mater, oherwydd bod y datganiadau ariannol yn cofnodi incwm perthnasol a gafwyd mewn perthynas â'r un gyfres o gontractau gwerthu coed. Felly, mae'r materion a nodais yn fy Adroddiad 2015-16 yn parhau'n berthnasol i ddatganiadau ariannol 2016-17.

Ers dyddiad fy Adroddiad yn 2015-16, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy Adroddiad, a bydd cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran ei Fwrdd.

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau pellach i'w gwneud.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Gorffennaf 2017
CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Caerdydd

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi eu gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf.

DATGANIADAU ARIANNOL
a
NODIADAU AR Y CYFRIFON

ar gyfer 2016/17

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

	Nodyn	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Costau staff	3	81,505	81,239
Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn	4	19,402	14,834
Gwariant arall	5	81,344	92,737
Cyfanswm y gwariant gweithredu		182,251	188,810
Incwm taliadau	6	(36,065)	(36,969)
Incwm masnachol ac arall	6	(25,147)	(27,735)
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	6	(1,681)	(1,540)
Cyfanswm yr incwm gweithredu		(62,893)	(66,244)
Gwariant gweithredu net		119,358	122,566
Cyllido asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	13.3	1,651	2,439
Gwariant net am y flwyddyn		121,009	125,005
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Cynnydd net o drosglwyddo swyddogaethau	1.6	0	(275)
Ailfesuriadau actiwaraid ar y cynllun pensiwn	13.3	(6,657)	(33,179)
Ailbrisió			
Colled net / (enillion) ar ailbrisió		(5,356)	15,996
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		108,996	107,547

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2017

		31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau tymor hir			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	7.1	771,685	752,001
Asedau treftadaeth	7.1	6,432	6,432
Asedau biolegol	7.1	105,643	102,450
Asedau anniriaethol	7.2	14,939	13,340
Asedau ariannol		140	140
Cyfanswm asedau tymor hir		898,839	874,363
Asedau cyfredol			
Asedau a ddelir i'w gwerthu		938	180
Rhestrau eiddo		805	759
Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	9	12,249	16,496
Arian parod ac arian parod cyfatebol	10	26,801	22,735
Cyfanswm yr asedau cyfredol		40,793	40,170
Cyfanswm yr asedau		939,632	914,533
Rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	11	(14,484)	(19,568)
Darpariaethau	12	(823)	(1,582)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(15,307)	(21,150)
Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		924,325	893,383
Rhwymedigaethau tymor hir			
Rhwymedigaethau pensiwn	13.3	(42,465)	(46,957)
Rhwymedigaethau ariannol	8	(39,998)	(39,991)
Cyfanswm rhwymedigaethau tymor hir		(82,463)	(86,948)
Asedau llai rhwymedigaethau		841,862	806,435
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill			
Cronfa gyffredinol	DoNET	203,289	197,532
Cronfa ailbriso	DoNET	681,038	655,860
Cronfa pensiynau	DoNET	(42,465)	(46,957)
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		841,862	806,435

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2017

Datganiad o Lif Arian

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

		2016/17	2015/16
	Nodyn	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant gweithredu net	DoWNC	(119,358)	(122,566)
Addasiad ar gyfer trafodion anariannol		19,344	17,902
Gostyngiad mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	9	4,310	802
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	11	(5,077)	(8,112)
Cynnydd /(Gostyngiad) mewn darpariaethau	12	(132)	(1,356)
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		<u>(100,913)</u>	<u>(113,330)</u>
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	7.1	(3,218)	(2,606)
Prynu asedau anniriaethol	7.2	(4,042)	(6,627)
Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar		1,165	1,130
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(6,095)</u>	<u>(8,103)</u>
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Derbyn arian parod ar drosglwyddo swyddogaethau	1.6	0	927
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	DoNET	111,074	116,443
Ariannu net		<u>111,074</u>	<u>117,370</u>
Cynnydd net mewn arian a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod		4,066	(4,063)
Arian parod chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod		<u>22,735</u>	<u>26,798</u>
Arian parod a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod	10	<u>26,801</u>	<u>22,735</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2017

	Cronfa gyffredinol £'000	Cronfa ailbrisió £'000	Cronfa pensiynau £'000	Cyfanswm £'000
Balans agoriadol	197,532	655,860	(46,957)	806,435
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(108,996)	0	0	(108,996)
Symudiad o fewn y flwyddyn				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	33,349	0	33,349
Ailbrisiad a wireddwyd	8,171	(8,171)	0	0
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(6,657)	0	6,657	0
Cynnydd mewn rhwymedigaeth pensiwn	2,165	0	(2,165)	0
Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn	3,679	25,178	4,492	33,349
Ariannu				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	111,074	0	0	111,074
Balans ar 31 Mawrth 2016	203,289	681,038	(42,465)	841,862

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronns y gwariant net a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cronfa ailbrisió - yn adlewyrchu balans cronol ailbrisió a mynegeio asedau tymor hir.

Cronfa pensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronns rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 60 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016

	Cronfa gyffredinol £'000	Cronfa ailbrisió £'000	Cronfa pensiynau £'000	Cyfanswm £'000
Balans agoriadol	211,460	543,603	(76,104)	678,959
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(107,547)	0	0	(107,547)
Addasiad trosglwyddo swyddogaethau	(359)	0	(1,348)	(1,707)
Symudiad o fewn y flwyddyn				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	120,287	0	120,287
Ailbrisiad a wireddwyd	8,030	(8,030)	0	0
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(33,179)	0	33,179	0
Cynnydd mewn rhwymedigaeth pensiwn	2,684	0	(2,684)	0
Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn	(22,465)	112,257	30,495	120,287
Ariannu				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	116,443	0	0	116,443
Balans ar 31 Mawrth 2016	197,532	655,860	(46,957)	806,435

Nodyn 1 Polisiâu Cyfrifyddu

1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015/16 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac â'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sy'n fwyaf priodol i roi darlun cywir a theg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r polisiâu a fabwysiadwyd yn cael eu disgrifio isod ac yn yr amrywiol nodiadau ar y cyfrifon. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud amryw o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar bolisiâu cyfrifyddu a symiau a adroddwyd. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynglŷn â digwyddiadau yn y gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r meysydd mwyaf arwyddocaol o ran amcangyfrif a dyfarniadau critigol yn cael eu dangos yn erbyn y nodiadau perthnasol. Sylwch y gall y canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

1.2 Arferion cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail cronïadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbriso eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anniriaethol tymor hir i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifo perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes hyfyw.

1.3 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail cronïadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn, ar wahân i ffioedd incwm opsiynau a dderbyniwyd gan weithredwyr ffermydd gwynt sy'n cael ei gynnwys yn y flwyddyn y cânt ei dderbyn. I gyfateb a thriniaeth gyfrifyddu Llywodraeth Cymru, mae gwerth net y ffioedd incwm opsiynau ffermydd gwynt, ar ôl tynnu y taliad i Lywodraeth Cymru, yn cael ei ddangos o fewn incwm o ynni adnewyddiadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbyniwyd cyn i'r gwaith gael ei wneud yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw'r arian parod wedi ei dderbyn na'i dalu, mae swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Lle na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y symiau derbyniadwy ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

Mae pob cyfraniad grant a dderbyniwyd wedi cael eu cydnabod fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.4 Treth ar Werth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddsbarthu fel corff y mae adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn gymwys iddo ac yn unol â hynny mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, lle codir treth wrth werthu, neu lle mae treth wrth brynu yn adenilladwy, mae'r symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi yn glir o TAW.

1.5 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbyniwyd gan barti rheoli ac yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol.

1.6 Rhanbarthau draenio mewnol a throsglwyddo swyddogaethau

Ar 1 Ebrill 2015 trosglwyddodd swyddogaethau, staff ac asedau byrddau draenio mewnol Cil-y-Coed a Gwynllŵg, Gwy Isaf a ThirPowys i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n rhedeg y pedwar ar ddeg ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob ardal yn cael ei ariannu gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar feddianwyr tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol o ran tir anamaethyddol.

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, a chan reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 bennu cyfraddau draenio a chyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Gosodwyd y cyfraddau draenio, yr ardollau arbennig a'r praeseptau ar gyfer 2016/17 gan CNC yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 6.

1.7 Mabwysiadu dehongliadau newydd a diwygiedig o IFRS neu FReM

FReM

Bob blwyddyn mae Trysorlys EM yn cyhoeddi FReM newydd sy'n dehongli IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae ffurf a chynnwys yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2016/17 wedi cael eu newid yn unol â'r diwygiadau a wnaed i'r FReM gan adlewyrchu canlyniadau'r prosiect Symleiddio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Statudol. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys cyflwyno tair rhan i'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r gofyniad i ddatgelu polisïau a nodiadau ar gyfer eitemau perthnasol yn unig. Yn 2016/17 cyfunwyd llinellau pellach yn Nodiadau 5, 7, 9 ac 12 lle y bo'n briodol, a chafodd ffigurau ar gyfer 2015/16 eu hailddatgan yn unol â hynny.

IFRS

Yn unol ag IAS 8, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau sydd wedi cael eu cyhoeddi, ond nad ydynt yn weithredol eto ac nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu yn gynnar gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ac eithrio 16 Prydles IFRS, rhagwelir na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni ellir rhagdybio effaith 16 Prydles IFRS sydd wedi cael eu cyhoeddi gan yr IASB ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd ac a fydd yn berthnasol o 2019/20, ar hyn o bryd.

1.8 Darpariaethau Ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn y gellir rhoi trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo eu hangen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n destun y gyfarwyddeb tirlenwi.

Y canlynol yw'r prif fecanweithiau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn i ddangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (a ddangosir yn nodyn 11)
- Adneuron arian parod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (a ddangosir yn nodyn 11)
- Cyfrifon escrow
- Cytundebau gweithredoedd Awdurdodau Lleol
- Gwarantau rhiant gwmnïau
- Cytundebau ymbarél (yn cwmpasu nifer o safleoedd)

1.9 Nodiadau ar y cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredol.

Mae Nodiadau 3-13 yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol a llifau arian parod.

Mae Nodiadau 14-20 yn ymwneud â ffigurau nad ydynt wedi eu datguddio mewn manau eraill yn y cyfrifon hyn.

2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2017

	DS (OD) a Rheoli Pobl	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau'r De	Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adroddwyd yn ôl segmentau								
Gwariant	7,185	29,238	58,069	29,598	36,727	4,049	17,385	182,251
Incwm	0	(35,423)	(25,873)	(2,269)	(1,697)	(77)	2,446	(62,893)
Cyfanswm	7,185	(6,185)	32,196	27,329	35,030	3,972	19,831	119,358
Gwariant cyfalaf	0	6,315	211	376	358	0	0	7,260

Mae'r segmentau hyn yn elfennau y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei reoli a'i adrodd yn fewnol ar eu cyfer. Roedd incwm a gwariant a ddangosir uchod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r segmentau.

Disgrifiad o'r segmentau

DS (OD) a Rheoli Pobl	Mae'n darparu datblygiad sefydliadol a rheolaeth ar adnoddau staff.
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'n darparu cefnogaeth ariannol, TGCh, cyfriethiol a chaffael. Mae'n rheoli adeiladau a fflyd Cyfoeth Naturiol Cymru.
Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Mae'n cyflawni dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn saith sir Gogledd Cymru, Ceredigion a Phowys, rheoli'r rhaglen gyfalaf a chynaeafu coedwigaeth.
Gweithrediadau'r De	Mae'n cyflawni dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn siroedd De Cymru.
Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Mae'n rheoli'r swyddogaethau cynllunio strategol, amgylcheddol a gofodol, caniatáu a rheoli risg llifogydd ac arfordirol.
Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Mae Swyddfa's Prif Weithredwr yn cynnwys llywodraethu, archwilio a sicrwydd rhag risg, yr ysgrifenyddiaeth, cysylltiadau allanol a chyfathrebu, canolfan cyswllt â chwsmeriaid, a thrawsnewid sy'n rheoli'r rhaglen thrawsnewidiol dros Gyfoeth Naturiol Cymru i'n galluogi i fod yn hunan-gynhaliol.
Rheolir yn ganolog	Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac nad yw'n cael ei ddyrannu i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr gwaith torri coed, cronladau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau

Yn ystod 2016/17 symudodd gwaith y Gwasanaethau Cenedlaethol i Wweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru ac i Dystiolaeth, Polisi a Chyfarwyddiaethau Trwyddedu. Nid yw'n bosibl i ailddatgan ffigurau 2015/16 i ddangos adleoliad tybiannol o waith a wnaed yn y flwyddyn honno. Symudodd y tîm cyfreithiol i Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Symudodd Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu, a Thrawsnewid i Swyddfa'r Prif Weithredwr.

Er bod adroddiafau i'r rheolwyr yn dangos y Prif Weithredwr, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu, a Thrawsnewid ar wahan, maent o fewn yr un gyfarwyddiaeth (Swyddfa'r Prif Weithredwr), ac felly wedi cael eu dangos o dan un pennawd yma. Mae'r gwariant yn y Swyddfa'r Prif Weithredwr yn 2.2% o gyfanswm y gwariant.

Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

Ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016

	Traws- newid	DS (OD) a Rheoli Pobl	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gwasanaethau Cenedlaethol	Gweithredia dau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau' r De	Gwybodaeth Strategaeth a Chynllunio	Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chynllunio	Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu	Prif Swyddog Gwybodaeth	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adroddwyd yn ôl segmentau												
Gwariant	956	2,467	18,873	44,907	27,909	33,041	27,117	3,584	980	12,725	16,251	188,810
Incwm	0	0	(36,216)	(23,278)	(4,019)	(2,893)	(1,877)	0	0	(27)	2,066	(66,244)
Cyfanswm	956	2,467	(17,343)	21,629	23,890	30,148	25,240	3,584	980	12,698	18,317	122,566
Gwariant cyfalaf	0	0	703	1,820	358	320	4	0	0	6,207	9	9,421

3. Costau staff

Mae manylion costau a niferoedd y staff bellach yn cael eu datgelu yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 47.

4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn

	2016/17	2015/16	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Categoriâu	Gwirioneddol £'000	Gwirioneddol £'000	Ymrwymedig £'000	Ymrwymedig £'000
Gwaith gweithredol	17,431	13,368	14,323	2,304
Grantiau cyfalaf	1,971	1,466	692	1,481
Cyfanswm	19,402	14,834	15,015	3,785

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n waith cyfalaf o ran ei natur ond lle nad yw CNC yn cadw'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth neu lle na allant amcangyfrif yn ddibynadwy beth yw oes ddefnyddiol yr ased. Mae hyn yn cynnwys eitemau megis:

Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:

- Gweithio i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu cadw yn y cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Creu, gwella neu gynyddu uchder argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr er mwyn lleihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n rhoi gwybodaeth am llifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr ar gyfer Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny.
- Gosod pyst ar hyd glannau'r afonydd i'w cryfhau a chadw'r tir cyfagos yn ddiogel ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn i raddau helaeth o dan y ddaear.
- Trwsio neu ailosod cwlferei o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwelliannau i'r sianeli sy'n cynorthwyo llif y cyrsiau dŵr.
- Datblygu strategaethau i ddarparu opsiynau perygl llifogydd yn y tymor hir i gwmpasu ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau unigol i reoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu.
- Paratoi Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.

Grantiau cyfalaf

Mae'r rhain yn grantiau, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith cyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru, y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy, a hefyd grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

5. Gwariant arall

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Eitemau arian parod		
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	17,811	20,324
Cytundebau Lefelau Gwasanaeth	6,493	9,535
Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr	5,542	6,892
Deunyddiau ac offer	3,843	4,073
Costau cynnal swyddfeydd	3,727	3,871
Costau TGCh	3,572	3,086
Cynnal a chadw rhwydwaith y ffyrdd coedwig	3,320	3,955
Grantiau	3,251	5,384
Costau fflyd	3,203	2,794
Cytundebau cydweithredol	2,421	2,894
Rhenti	2,089	2,007
Costau sy'n gysylltiedig â staff	2,075	2,026
Teithio a chynhaliaeth	1,146	2,360
Ffioedd a chostau llys	1,064	852
Costau gweithredol	933	3,609
Colledion a thaliadau arbennig	914	57
Ardrethi	840	795
Ffioedd archwilio statudol	185	143
Grantiau Ewropeaidd	100	33
Llog ar brydlesi cyllid	33	51
Is-gyfanswm	62,562	74,741
Gwariant nad yw'n arian parod		
Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad	11,246	9,787
Gwerth coed a werthwyd	7,935	6,970
Colledion	173	793
Symudiad ar y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	(63)	57
Symudiad ar ddarpariaethau eraill	(705)	(17)
(Enillion) / Colled ar waredu	196	406
Is-gyfanswm	18,782	17,996
Cyfanswm	81,344	92,737

Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu a'r taliadau arbennig yn awr yn cael eu dangos yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 51.

Yn 2015/16, cafodd y taliad o £2,660k ar gyfer opsiynau ffermydd gwynt eu cynnwys yn y tabl uchod o dan 'Costau gweithredol'. Ar gyfer 2016/17, mae'r taliad o £1,695k wedi cael ei dynnu o ffigwr 'Incwm o ynni adnewyddadwy' yn Nodyn 6.

6. Dadansoddiad o incwm

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	17,988	18,797
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,560	6,272
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,043	3,033
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,311	2,183
Rheoleiddio niwclear	1,783	1,765
Trwyddedau pysgota	1,161	1,380
Taliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd	1,058	1,218
Gwastraff peryglus	1,013	1,013
Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr	620	675
Allryiadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	266	311
Trwyddedu morol	262	322
Incwm o daliadau	36,065	36,969
Incwm o bren	16,070	16,475
Incwm o ynni adnewyddadwy	3,336	4,927
Incwm o ystadau	2,720	2,917
Incwm ardaloedd draenio mewnol	1,617	1,401
Darparu gwybodaeth a gwasanaethau	920	923
Adennill costau cyfreithiol ac incwm o'r Ddeddf Elw Trosedd	264	589
Incwm amrywiol	164	(52)
Llog derbyniadwy	43	55
Incwm tuag at gostau glanhau safleoedd	13	500
Incwm masnachol ac arall	25,147	27,735
Grantiau a chyfraniadau	1,194	748
Incwm Ewropeaidd ⁺	487	792
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	1,681	1,540
Cyfanswm yr incwm	62,893	66,244

+ Gan gynnwys incwm a hawliwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

Ar gyfer 2016/17, mae'r taliad o £1,695k ar gyfer incwm opsiynau ffermydd gwynt wedi cael ei dynnu o ffigur 'Incwm o ynni adnewyddadwy' uchod. Yn 2015/16, cafodd y taliad o £2,660k ei gynnwys yn Nodyn 5 o dan 'Costau gweithredol'.

6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2017	Incwm a gafodd ei filio £'000	Gwariant £'000	Gwarged/ (Difyg) £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	18,219	17,988	231
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,643	6,560	83
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,090	3,043	47
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,177	2,311	(134)
Rheoleiddio niwclear	1,758	1,783	(25)
Trwyddedau pysgota	1,161	1,161	0
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	966	1,058	(92)
Gwastraff peryglus	1,006	1,013	(7)
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	620	620	0
Trwyddedau morol	280	266	14
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	262	262	0
Cyfanswm	36,182	36,065	117

Ffigurau cymharol - y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016	Incwm a gafodd ei filio £'000	Gwariant £'000	Gwarged/ (Difyg) £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	17,613	18,797	(1,184)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,506	6,272	234
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,380	3,033	347
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,111	2,183	(72)
Rheoleiddio niwclear	1,709	1,765	(56)
Trwyddedau pysgota	1,380	1,380	0
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,002	1,218	(216)
Gwastraff peryglus	959	1,013	(54)
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	675	675	0
Trwyddedau morol	322	322	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	298	311	(13)
Cyfanswm	35,955	36,969	(1,014)

Mae incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau.

Mae gwargedion a diffygion cronedig yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu ar a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddifyg. Mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig dim ond lle mae disgwyliad y bydd y balansau yn rhai y bydd modd eu hadennill dros gyfnod rhesymol o amser. Mae'r balansau yn cael eu hystyried wrth bennu ffioedd a thaliadau blynnyddoedd y dyfodol, er mwyn i sefyllfa o adennill costau gael ei chyflawni dros gyfnod rhesymol o amser, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i fod yn dair blynedd.

Mae'r tabl uchod o ffioedd a thaliadau yn wahanol i incwm a adroddwyd yn nodyn 6 oherwydd y polisi a nodir uchod. Mae'r gwargedion a'r diffygion cronus yn cael eu cynnwys mewn incwm cronedig a gohiriedig yn nodiadau 9 a 11 yn y drefn honno.

Mae costau a ariennir gan gymorth grant wedi cael eu heithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i rai sy'n talu taliadau. Yr amcan ariannol yw adennill costau llawn gan gynnwys dibrsiad costau cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob ardal yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau Tynnu Dŵr - codi tâl ar fusnesau sy'n defnyddio tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddwyd hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr - incwm i adennill costau am ymdrechion CNC ar gyfer adnoddau dŵr, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau Pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr - codi tâl am ollyngiadau o fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau - caniatáu i reoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff - trwyddedu rheoli gwastraff ac eithriadau.
- Gwastraff peryglus - trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau ac ymrwymiad i leihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear - rheoleiddio safleoedd niwclear a di-niwclear, a safleoedd niwclear newydd.
- Trwyddedau morol - rheoleiddio adneuron, symudiadau, prosiectau adeiladu ar neu o dan wely'r môr a phob math o garthu.
- Gwarchodaeth arall ar yr amgylchedd - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiadau trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar gyfer offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig a rheoleiddio busnesau dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

7. Asedau tymor hir

Mae dau categori o asedautymor hir - asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

Cydnabyddiaeth

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth yw ei werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill gydag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gall eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 gael eu grwpio fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000 ac mae'r asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bydd y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol yn cael eu bodloni, mae'n debygol y bydd buddion economaidd ychwanegol yn llifo i GNC ac y gall cost y gwariant gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mesur

Mae'r holl asedau tymor hir ac eithrio asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hadrodd naill ai ar y gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ar hyn o bryd neu ar y gwerth teg presennol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau sy'n cael eu dosbarthu fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gynnal i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a diffyg gwerthoedd cymharol ar y farchnad, mae CNC yn ystyried y byddai cael prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly mae asedau treftadaeth yn cael eu cynnal yn ôl y gwerth cost. Mae costau cadwraeth (y gwariant sydd ei angen i warchod yr ased treftadaeth) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.2.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar gost a'u trosglwyddo i'r categori asedau tymor hir priodol pan fyddant wedi eu cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

Mynegio ac Ailbriso

Mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (a adroddwyd o fewn strwythurau gweithredol) yn ddarostyngedig i ailbriso proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cafodd yr asedau hyn eu hailbriso'n broffesiynol y tro ddiwethaf ar 31 Mawrth 2016 gan syrfewyr siartredig a'u llofnodi gan brisiwr cofrestredig. Y syrfewyr siartredig oedd John Clegg & Co, Cooke and Arkwright, Lambert Smith Hampton, Llewellyn Humphreys, Williams Rural & Commercial, Strutt & Parker, Bidwells ac asiantau tir mewnol.

Roedd pob un o'r priswyr a wnaeth yr ailbrisiad pum mlynedd, yn aelodau o'r RICS ac yn Briswyr Cofrestredig yn unol â Chynllun Cofrestru Priswyr RICS, ar wahân i'r priswyr hynny sydd wedi ymgymryd â rhai prisiadau seilwaith penodol ar asedau treftadaeth. Sicrhawyd ansawdd y prisiadau hynny gan Brif Syrfewr Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol am y farchnad benodol, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud y prisiad yn fedrus.

Cafodd ein holl swyddfeydd rhydd-ddaliadol a phrydlesol a'r eiddo masnachol eu prisio y tro diwethaf ar 31 Mawrth 2016 gan y priswyr allanol, Elizabeth Hill ac Alan Jones o Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright.

Cafodd prisiadau tir, strwythurau cyhoeddus ac asedau arbenigol eraill eu trefnu gan ein tîm mewnol o Syrfewyr Siartredig, o dan gyfarwyddyd y Prif Syrfewr.

Ar gyfer yr asedau hynny lle mae gennym incwm rhent yn y dyfodol ar ein tir defnyddiwyd syrfewyr proffesiynol allanol. Prisiwyd Fferm Wynt Cefn Croes gan Bidwells a'r portffolio telathrebu gan Strutt & Parker.

Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes unrhyw beth i'w gymharu ar y farchnad, amcangyfrifwyd yr amcangyfrif o 'werth teg' gan ddefnyddio dull cost adnewyddu dibrisiedig.

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth ddarparu gwasanaeth CNC ac maent yn benodol o ran eu natur, lleoliad neu swyddogaeth. Nid yw'n bosibl ailbrisiu'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio ffigurau cymharol y farchnad neu brisiadau proffesiynol.

Rhwng ailbrisiadau proffesiynol, caiff yr ystâd goedwig, tir, adeiladau, strwythurau gweithredol ac asedau biolegol eu mynegeo'n flynyddol gan ddefnyddio indecs addas.

Pan fydd symud yn y mynegeion ar gyfer offer a pheiriannau, technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol yn materol berthnasol, caiff yr asedau hyn eu hailbrisiu o dan y confensiwn cost hanesyddol ag addaswyd.

Mae addasiadau o ganlyniad i'r mynegeo ac ailbrisiadau yn cael eu cymryd i'r gronfa ailbrisiu wrth gefn oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi cael ei ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisiu tuag i lawr, ac os felly mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth eu trosglwyddo i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Dibrisiant ac amorteiddiad

Nid yw tir a hawl anniriaethol i diroedd yn cael ei ddibrisio, oni bai fod y tir yn ffurfio elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr. Mae cerbydau a ddangosir yn y categori offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio ar sail balans sy'n gostwng ar gyfradd o 21%. Mae'r holl asedau eraill yn cael eu dibrisio / hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidig. Caiff dibrisiant ei godi yn y mis y caiff ased ei waredu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, ond nid yn y mis y caiff ased ei gaffael.

Caiff bywydau asedau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar bob dyddiad adrodd. Mae'r prif fywydau defnyddiol a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant fel a ganlyn:

Categori o Asedau	Prif fywyd defnyddiol
Asedau diriaethol	
Adeiladau ac anheddau	10 - 60 o flynyddoedd
Offer a pheiriannau	4 - 25 o flynyddoedd
Technoleg Gwybodaeth	3 - 10 o flynyddoedd
Strwythurau gweithredol	5 - 100 o flynyddoedd
Asedau anniriaethol	
Trwyddedau meddalwedd	5 - 25 o flynyddoedd
Trwyddedau eraill	5 - 100 o flynyddoedd
Datblygu meddalwedd	3 - 10 o flynyddoedd
Gwefan	5 - 10 o flynyddoedd

Mae'r ystod yn y bywydau defnyddiol yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o fathau o asedau o fewn y categorïau o asedau.

Gwarediadau

Pan fydd ased yn cael ei waredu, mae ei swm cario yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r llinell enillion neu golled waredu hefyd. Caiff unrhyw enillion ailbrisiu cronodig ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Y gronfa ailbriso

Mae'r gronfa ailbriso yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth asedau nad ydynt yn gyfredol. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- Eu hailbriso tuag at i lawr neu pan gaiff eu gwerth ei leihau a cholli yr enillion.
- Eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu colli trwy ddibrisiant.
- Eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Caiff swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar yr asedau a ailbrisir a'r hyn a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r asedau wedi'u dangos ar gost ei drosglwyddo o'r gronfa ailbriso i'r gronfa gyffredinol.

Amhariad

Mae asedau tymor hir yn destun adolygiadau amhariad blynyddol. Caiff amhariadau eu cydnabod pan fydd y swm y gellir ei adennill o asedau nad ydynt yn gyfredol yn disgyn islaw eu gwerth llyfr net, o ganlyniad i naill ai ostyngiad mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad, colled mewn budd economaidd neu gostyngiad o wasanaeth potensial. Mae ailbrisiadau tuag i lawr o ganlyniad i newidiadau yn y gwerth ar y farchnad yn arwain at amhariad dim ond lle mae'r ased yn cael ei ailbriso yn is na'i swm cario cost hanesyddol. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond y colledion amhariad nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad yn potensial gwasanaeth, caiff eu gydnabod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbriso. Mae unrhyw swm sy'n ychwanegol at hyn yn cael ei gydnabod fel amhariad trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Dylai colledion amhariad sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad mewn potensial gwasanaeth, cael eu gydnabod yn llawn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Caiff unrhyw golled o fudd economaidd ei gydnabod yn llawn yn erbyn gwariant. Mae swm hyd at werth yr amhariad yn cael ei drosglwyddo o'r aronfa ailbriso wrth aefn i'r aronfa avffredinol ar avfer yr asedau **Asedau tymor hir a ddelir i'w gwerthu**

Dosberthir asedau tymor hir yn asedau a ddelir i'w gwerthu os caiff y swm cario ei adennill yn bennaf drwy werthu'r asedau yn hytrach na thrwy barhau i'w defnyddio. Daw'r broses ddibrisio i ben ar unwaith ar ôl i'r asedau gael eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar yr isaf o'u swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Maent yn cael eu cofnodi fel asedau cyfredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Dim ond os yw'r rheolwyr yn ymrwymedig i gynllun i'w gwerthu ac os yw'r asedau'n cael eu marchnata yn eu cyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'u cyflwr presennol yr ystyrir bod asedau anghyfredol yn asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

7.1 Asedau tymor hir diriaethol

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad											
Ar 1 Ebrill 2016	611,803	53,918	12,782	24,373	12,894	67,654	3,185	786,609	102,450	6,432	895,491
Ychwanegiadau	0	2	1,282	1,030	0	304	600	3,218	0	0	3,218
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	4	0	1,212	426	884	(2,355)	171	0	0	171
Gwarediadau a datgydnabod	0	(180)	(234)	(4,201)	0	(82)	(612)	(5,309)	0	0	(5,309)
Symudiad o / (i) a ddelir i'w gwerthu	0	(519)	(365)	(75)	0	0	0	(959)	0	0	(959)
Torri coed	(5,872)	0	0	0	0	0	0	(5,872)	(2,109)	0	(7,981)
Mynegeio ac ailbriso	26,667	2,099	1,019	0	0	4,081	0	33,866	5,302	0	39,168
Ailddosbarthu	0	(30)	0	(186)	0	14	0	(202)	0	0	(202)
Ar 31 Mawrth 2017	632,598	55,294	14,484	22,153	13,320	72,855	818	811,522	105,643	6,432	923,597
Dibrisiant											
Ar 1 Ebrill 2016	0	0	315	17,586	6,063	10,644	0	34,608	0	0	34,608
Y codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	0	0	579	1,814	4,142	2,512	0	9,047	0	0	9,047
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	(61)	(3,884)	0	(40)	0	(3,985)	0	0	(3,985)
Symudiad o / (i) a ddelir i'w gwerthu	0	0	(139)	(60)	0	0	0	(199)	0	0	(199)
Mynegeio ac ailbriso	0	0	0	0	0	464	0	464	0	0	464
Ailddosbarthu	0	0	0	(104)	0	6	0	(98)	0	0	(98)
Ar 31 Mawrth 2017	0	0	694	15,352	10,205	13,586	0	39,837	0	0	39,837
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2016	611,803	53,918	12,467	6,787	6,831	57,010	3,185	752,001	102,450	6,432	860,883
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017	632,598	55,294	13,790	6,801	3,115	59,269	818	771,685	105,643	6,432	883,760
Ariannu Asedau											
Wedi'u perchnogi	588,482	50,276	13,790	6,351	3,115	59,269	818	722,101	105,643	6,432	834,176
Wedi'u prydlesu	44,116	5,018	0	450	0	0	0	49,584	0	0	49,584
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017	632,598	55,294	13,790	6,801	3,115	59,269	818	771,685	105,643	6,432	883,760

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £290k. Mae ein hadeiladau eraill yn swyddfeydd ac yn lleoliadau gwaith. Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2017 oedd £ 690,049k. (£ 654,488k ar 1af Ebrill 2016).

Ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad											
Ar 1 Ebrill 2015	524,297	39,657	20,881	23,756	13,912	58,909	3,025	684,437	117,881	6,432	808,750
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	0	152	364	758	19	180	0	1,473	0	0	1,473
Ychwanegiadau	0	206	0	140	0	21	2,427	2,794	0	0	2,794
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	101	0	1,213	0	566	(1,880)	0	0	0	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymiadau	0	(95)	0	(238)	(1,195)	(540)	0	(2,068)	0	0	(2,068)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	0	0	0	0	(436)	(387)	(823)	0	0	(823)
Gwarediadau	(33)	(469)	(225)	(1,272)	(19)	0	0	(2,018)	0	0	(2,018)
Symudiad o / (i) a ddelir i'w gwerthu	9	788	0	0	0	0	0	797	0	0	797
Torri coed	(5,072)	0	0	0	0	0	0	(5,072)	(1,822)	0	(6,894)
Mynegeio ac ailbriso	92,602	12,556	(8,274)	16	177	9,283	0	106,360	(13,609)	0	92,751
Ailddosbarthu	0	1,022	36	0	0	(329)	0	729	0	0	729
Ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,782	24,373	12,894	67,654	3,185	786,609	102,450	6,432	895,491
Dibrisiant											
Ar 1 Ebrill 2015	0	0	5,320	16,245	3,299	14,673	0	39,537	0	0	39,537
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	0	0	193	516	14	57	0	780	0	0	780
Y codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	0	0	644	2,187	3,858	1,751	0	8,440	0	0	8,440
Addasiadau adolygu asedau a diddymiadau	0	0	0	(208)	(1,172)	(156)	0	(1,536)	0	0	(1,536)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	0	0	0	0	(48)	0	(48)	0	0	(48)
Gwarediadau	0	0	(191)	(1,161)	(15)	0	0	(1,367)	0	0	(1,367)
Mynegeio ac ailbriso	0	0	(5,718)	7	79	(5,566)	0	(11,198)	0	0	(11,198)
Ailddosbarthu	0	0	67	0	0	(67)	0	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2016	0	0	315	17,586	6,063	10,644	0	34,608	0	0	34,608
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2015	524,297	39,657	15,561	7,511	10,613	44,236	3,025	644,900	117,881	6,432	769,213
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,467	6,787	6,831	57,010	3,185	752,001	102,450	6,432	860,883
Ariannu Asedau											
Wedi'u perchnogi	568,985	49,516	12,467	6,120	6,831	57,010	3,185	704,114	102,450	6,432	812,996
Wedi'u prydlesu	42,818	4,402	0	667	0	0	0	47,887	0	0	47,887
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,467	6,787	6,831	57,010	3,185	752,001	102,450	6,432	860,883

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £350k. Mae ein hadeiladau eraill yn swyddfeydd ac yn lleoliadau gwaith.

7.1.1 Yr ystad goedwig

Cafodd perchnogaeth gyfreithiol Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ei roi i Weinidogion Cymru. Mae wedi ei gynnwys yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cario'r risg ariannol a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ystad ac yn ymgymryd â holl weithgareddau rheoli ystadau. Mae'r stad yn cynnwys tir a choed sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu torri, yn cael ei roi i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu dal a'u rheoli'n bennaf i fodloni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd i Gymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gall eu pwrpas gael ei rannu rhwng pwrpas economaidd (cyfraniad at economi Gymreig ffyniannus a chynaliadwy) a phwrpasau eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan Safon Archwilio Ryngwladol 41 (Amaethyddiaeth), rhaid i bren a dyfir ar gyfer pwrpas economaidd gael ei ddosbarthu fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir gwaelodol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar a chyfeirir ato fel yr ystad goedwig.

Dangosir yr asedau yn y ddau gategori yn ôl eu gwerth teg. Mae priswyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad o'r ystad bob pum mlynedd. Penodwyd John Clegg a'i Gwmni fel priswyr ar gyfer y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn unol â Gwerthusiad a Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch), cafodd ystad ei phrisio fel y bo'n briodol ar gyfer cael gwerth teg. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, defnyddir mynegeion arfer gan Clegg a'i Gwmni i ailddatgan gwerthoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad cydymffurfiol.

Cymerir addasiadau sy'n deillio o ailbriso'r ystad goedwig i'r gronfa ailbriso ac maent yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa Gyffredinol pan wneir enillion wrth dorri coed. Mae addasiadau sy'n deillio o ailbriso asedau biolegol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ailbriso.

Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a barnau

Mae elfennau o'r prisiad, ac felly'r cyfrifyddu ar gyfer yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Ystyrir na fyddai'n gost effeithiol cynnal prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd sy'n cwmpasu pob ardal o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr â chymwysterau proffesiynol ystyrir y gellir cael prisiad rhesymol drwy briso hapsampl o eiddo sy'n cynrychioli rhwng 8 a 10 y cant o'r ystad goedwig ac allosod y rhain ar gyfer yr ystad goedwig gyfan, a defnyddio ffactorau lleoliad, rhywogaethau, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd y ceir y dystiolaeth fwyaf priodol o werth sy'n seiliedig ar y farchnad o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd sydd ag arwynebedd o fwy na 50 hectar. Cydnabyddir, serch hynny, y gall gwerthoedd amrywio'n fawr ac y gall y barnau hyn fod braidd yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu i ryw raddau ar farnbroffesiynol. Wedyn mae'r priswyr allanol yn pennu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir y bydd gwerth tir prydlesol 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Cafodd y gwaith o ddosrannu coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer ei wneud gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio barnau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a oedd yn cael ei dal yn bennaf ar gyfer pwrpas economaidd a defnyddiwyd y ganran i bennu gwerth coed a oedd wedi'u dosbarthu fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn ein daliad tir o'r ystad goedwig o 10 y cant neu fwy, byddai adolygiad interim o'r asesiad yn cael ei gynnal. Nid oedd unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2017. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 26% ar gyfer asedau biolegol a 74% ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau gan gostau wedi'u hamcangyfrif i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn ar bump y cant o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.

Cynllun coedwigo ar y cyd Llyn Efyrynwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli coedwig yn ardal Llyn Efyrynwy o dan gynllun coedwigo ar y cyd gyda Severn Trent Water. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael incwm ac yn mynd i gostau. Gwneir taliad blynyddol sy'n cyfateb i 50% o'r gwarged gweithredu i Severn Trent Water. Dengys Cyfoeth Naturiol Cymru werth 50% o'r coed sy'n tyfu ar gyfer yr ardal hon o goedwig yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i rannu rhwng yr ystad goedwig ac asedau biolegol. Ni chynhwysir gwerth y tir o dan y goedwig (sy'n dal i fod yn eiddo i Severn Trent Water).

7.1.2 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir heb fod yn weithredol o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwylt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir yn cael ei ddal ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (Eiddo, Offer a Chyfarpar) mae'r asedau hyn wedi cael eu cyfalafu ar sail cost.

Ar 31 Mawrth 2017 mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 58 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (GNF). Ni fu unrhyw bryniant sylweddol o dir yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth a pholisïau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadwraeth, rheolaeth, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth i'w gweld ar ein gwefan yn:

<http://naturalresources.wales/conservation-biodiversity-and-wildlife/find-protected-areas-of-land-and-seas/?lang=cy>

7.2 Asedau tymor hir anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad						
Ar 1 Ebrill 2016	5,895	2,419	4,392	161	6,461	19,328
Ychwanegiadau	124	16	2,551	189	1,162	4,042
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	643	0	4,853	122	(5,789)	(171)
Gwarediadau a datgynabod	(44)	(9)	0	0	(173)	(226)
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	0
Aiiddosbarthu	172	30	0	0	0	202
Ar 31 Mawrth 2017	6,790	2,456	11,796	472	1,661	23,175
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2016	2,257	56	3,643	32	0	5,988
Codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	1,048	30	1,058	63	0	2,199
Gwarediadau a datgynabod	(44)	(3)	(2)	0	0	(49)
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	0
Aiiddosbarthu	98	0	0	0	0	98
Ar 31 Mawrth 2017	3,359	83	4,699	95	0	5,988
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2016	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017	3,431	2,373	7,097	377	1,661	14,939
Ariannu Asedau						
Wedi'u perchnogi	3,431	2,373	7,097	377	1,661	14,939
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017	3,431	2,363	7,097	377	1,661	14,939

Y swm a ddeler yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2017 oedd £989k. (£ 1,372k ar 1af Ebrill 2016)

Ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad						
Ar 1 Ebrill 2015	5,130	2,607	4,554	165	862	13,318
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	8	0	0	0	0	8
Ychwanegiadau	377	0	0	0	6,250	6,627
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	632	0	0	0	(632)	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymadau	(108)	0	(118)	0	0	(226)
Addasiadau'r flwyddyn flaenorol	0	0	0	0	(19)	(19)
Gwarediadau	(57)	0	0	0	0	(57)
Mynegeo ac ailbriso	(87)	541	(44)	(4)	0	406
Aiiddosbarthu	0	(729)	0	0	0	(729)
Ar 31 Mawrth 2016	5,895	2,419	4,392	161	6,461	19,328
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2015	1,509	28	3,384	0	0	4,921
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	7	0	0	0	0	7
Codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	900	28	388	31	0	1,347
Addasiadau adolygu asedau a diddymadau	(98)	0	(118)	0	0	(216)
Gwarediadau	(54)	0	0	0	0	(54)
Mynegeo ac ailbriso	(7)	0	(11)	1	0	(17)
Ar 31 Mawrth 2016	2,257	56	3,643	32	0	5,988
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2015	3,621	2,579	1,170	165	862	8,397
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340
Ariannu Asedau						
Wedi'u perchnogi	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340

8. Rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol

8.1 Rhwymedigaeth ariannol

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,998k a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys £39,844k o rwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd

Yn 1989, er mwyn ei gwneud yn bosibl i breifateiddio ddigwydd, negododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeo yn flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru Welsh Water.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo fel bythol-daliadau ar sail cost amorteiddiedig ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio mewn achos annhebygol lle bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys y mynegeo blynyddol drwy ei daliadau ar gyfer tynnu dŵr.

Talwyd £5,332k i Ddŵr Cymru Welsh Water yn ystod 2016/17 (2015/16: £5,226k) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeo. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys gyda thaliadau eraill o dan y cytundebau gweithredu cronfeydd yn Nodyn 5

8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Adnoddau Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf drwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff yn y sector nad yw'n gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei amlygu i ddim ond ychydig o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

9. Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Dyledwyr masnachol	3,700	6,520
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus	(350)	(413)
TAW derbyniadwy	3,763	3,129
Incwm cronedig	3,367	3,869
Rhagdaliadau	1,607	2,009
Derbyniadau eraill	139	158
Adneuo	23	23
Incwm Ewropeaidd Cronedig	0	1,201
Cyfanswm	12,249	16,496

10. Arian parod a chyferthoedd arian

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Balans agoriadol	22,735	26,798
Newid net mewn arian a chyferthoedd arian yn y cyfnod	4,066	(4,063)
Cyfanswm	26,801	22,735

Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth

Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	18,906	17,695
Cyfrifon banc eraill	7,894	5,039
Arian mewn llaw	1	1
Cyfanswm	26,801	22,735

11. Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Incwm gohiriedig	6,687	6,976
Credydwyr masnachol cronedig	3,867	7,273
Tâl gwyliau	1,622	1,606
Bondiau a blaendaliadau	1,425	1,425
Prydlesi cyllid	458	718
Credydwyr masnachol	291	1,464
Symiau taladwy eraill	134	106
Total	14,484	19,568

12. Darpariaethau

	Costau ymadael yn gynnar	Arall	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2016	259	1,323	1,582
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	78	520	598
Rhyddhawyd yn y flwyddyn	0	(1,225)	(1,225)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(132)	0	(132)
Balans ar 31 Mawrth 2017	205	618	823
Amcangyfrif o amseriad llifau arian wedi'u disgowntio			
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	149	618	767
Yn ddyledus rhwng un a phum mlynedd	56	0	56
Cyfanswm	205	618	823

Yn unol â gofyniad IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn), lle mae hynny'n berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i ni i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £511k o'r cynigion grant i ariannu gwaith sydd i'w wneud hyd at 31 Mawrth 2017, ond na fydd yn cael ei hawlio tan fis Mehefin 2017 ac £107k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y bydd pob un o'r rhain yn cael eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf.

Mae cost y ddarpariaeth ychwanegol a newidiadau yn y disgownt ar gyfer darpariaeth costau gadael yn gynnar yn cael eu cynnwys yn nodyn 3. Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau a nodwyd uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rhwymedigaethau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer dyledion amheus, a ddangosir hefyd yn nodyn 5, yn cael ei chynnwys yng nghyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn nodyn 9 a'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan asedau a dderbynnir.

13. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn aelod o ddau gynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw fe wnaeth pob gwas sifil a benodwyd yn ddiweddar a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ymuno ag alffa. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alffa yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i mewn i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin, 2015 ac 1 Chwefror, 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alffa yn cael eu buddion PCSPS wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alffa - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gallai aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynllun classic (ac aelodau o'r cynllun alffa a oedd yn aelodau o'r cynllun classic yn union cyn ymuno ag alffa) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alffa. Mae buddion mewn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae classic plus yn gynllun hybrid yn ei hanfod gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y premiwm. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion mewn alffa yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronol yw 2.32%. Ym mhob achos, gallai aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn.

Gellir cael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan:

www.civilservicepensionscheme.org.uk

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) eu trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr AAC yn parhau'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbyniwyd.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol, a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008. Mae wedi ei gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae mwy o fanylion am y gronfa pensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk.

Cyfanswm y tâl pensiwn ar gyfer CNC oedd £8.710 million. Cafodd y tâl pensiwn yn ymwneud â'r cynllun ei asesu yn unol â chyngor actiwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol o brisio i gyfrifo costau gwasanaeth.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid bob tair blynedd diweddaraf yr EAPF ar 31 Mawrth 2016. Roedd yr asedau a gymerwyd ar werth y farchnad (£2.7 biliwn) yn ddigon i dalu am 103% o werth y rhwymedigaethau o ran buddion gwasanaeth blaenorol a oedd wedi cronni i'r aelodau. Mae CNC wedi derbyn argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraid bob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2019 ac fe'i defnyddir i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau 1 Ebrill, 2020.

Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF yn adrodd bod ganddo ddigon o asedau i gwrdd ag 102% o'i rwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2017 ar sail gyllido barhaus. Cyfrifir cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel yr adroddwyd yn y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio tybiaethau actiwaraid, sy'n ofynnol gan IAS19, sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiad blynyddol yr EAPF. Mae hyn yn arwain at lefel ariannu gwahanol i'r hyn a nodwyd gan yr EAPF.

Y prif wahaniaeth yn y dybiaeth yw'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF yn seiliedig ar arenillion tymor hir bondiau llywodraeth y DU ac yn cymryd yn ganiataol lefel o orberfformiad o ran asedau yn y dyfodol gan y bondiau sy'n eiddo i'r EAPF. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn, fel sy'n ofynnol gan IAS 19 yn seiliedig ar arenillion bondiau corfforaethol o safon uchel, heb unrhyw ragdybiaeth ychwanegol am berfformiad asedau. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn nodyn 13.4 yn dangos sensitifrwydd rhwymedigaethau'r gronfa i wahaniaeth yn y gyfradd ddisgownt.

Mae nifer o ragdybiaethau yn cael eu gwneud fel rhan o broses y prisiad actiwaraid. Nid yw'r tybiaethau actiwaraid darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn am yr hyn y gallai symudiadau cyflog yn y dyfodol fod. Tybiwyd y bydd pensiynau presennol ac yn y dyfodol sy'n cael eu talu yn cynyddu ar gyfradd o 2.1% y flwyddyn. Y cyfraniad amcangyfrifedig sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 fydd tua £6.450 miliwn.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad CNC yn yr EAPF. Mae'r holl gyfrifiadau wedi'u gwneud gan actwari annibynnol cymwys ac fe'u seiliwyd ar brisiad actiwaraid diweddaraf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016 a ddiweddarwyd hyd at 31 Mawrth 2017. Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r cyfrifiad o rwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2017 yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion cyfrifyddu fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Nid oes unrhyw ofyniad i'r rhwymedigaeth net a adroddwyd gael ei fodloni fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa pensiwn yn parhau i gael eu gosod drwy gyfeirio at dybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraid o'r cynllun a gynhelir bob tair blynedd.

13.1 Tybiaethau ariannol a thybiaethau o ran hirhoedledd

Y cyfnod a ddaeth i ben	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	% p.a.	% p.a.
Y gyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.10%	1.90%
Y gyfradd cynnydd mewn cyflogau	2.40%	3.40%
Y gyfradd ddisgowntio	2.60%	3.50%

Disgwyliad oes yn 65 oed yn y dyfodol, ar gyfartaledd	Dynion	Merched
	Pensiynwyr presennol	22.6 blynedd
Pensiynwyr yn y dyfodol (Pobl a fydd yn 65 oed ymhen 20 mlynedd)	24.3 blynedd	26.7 blynedd

13.2 Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

Categori o asedau	31 Mawrth 2017 (£'000)				
	Wedi'u dyfynnu	Heb eu dyfynnu	Heb eu penderfynnu	Cyfanswm	%
Gwarannau Ecwiti:					
Stoc Gyffredin	99,382	326	176	99,883	31%
Stoc a Ffefrir	0	0	0	0	0%
Hawliau / Gwarantau	0	0	0	0	0%
Asedau Ecwiti Eraill	1,052	0	0	1,052	0%
Gwarannau Dyledion:					
Bondiau Llywodraeth y DU	0	33,139	0	33,139	10%
Bondiau Corfforaethol	0	25,816	68	25,883	8%
Arall	0	1,504	0	1,504	0%
Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:					
Ecwitiâu	2	0	52,077	52,079	16%
Bondiau	733	0	31,386	32,119	10%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	2,089	0	10,745	12,834	4%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	394	1,618	10,537	12,549	4%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0	0	0	0	0%
Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:					
Partneriaethau ac Eiddo Tiro	0	26,229	2,038	28,267	9%
Buddsoddiad arall					
Gwarannau wedi'u Staplo	737	0	0	737	0%
Contractau Deilliadol:					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	(0)	0	0	(0)	0%
Blaengontractau FX	0	246	0	246	0%
Arian parod a chyfwerth arian					
Pob un	0	(2)	23,249	23,247	7%
Cyfansymiau	104,388	88,876	130,276	323,540	100%

13.3 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net

Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2017	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau)/ Asedau net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	267,390	0	267,390
Gwerth presennol rhwymedigaethau	0	314,347	(314,347)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir	0	0	0
Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2016	267,390	314,347	(46,957)
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth *	0	6,623	(6,623)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau)	0	2,087	(2,087)
- Effaith setliadau	0	0	0
Cyfanswm cost y gwasanaeth	0	8,710	(8,710)
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	9,409	0	9,409
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	11,060	(11,060)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
Cyfanswm y llog net	9,409	11,060	(1,651)
Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)	9,409	19,770	(10,361)
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	2,031	2,031	0
- Cyfraniadau'r cyflogwr	8,196	0	8,196
- Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(6,968)	(6,968)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	0	0	0
Sefyllfa cau ddisgwyliedig	280,058	329,180	(49,122)
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	612	(612)
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	57,459	(57,459)
- Profiad arall	0	(21,246)	21,246
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net	43,482	0	43,482
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)	43,482	36,825	6,657
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	323,540		323,540
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir		366,005	(366,005)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir		0	0
Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2017	323,540	366,005	(42,465)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.4% o'r gyflogres.

13.4 Dadansoddiad o sensitifrwydd

Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2017:	% bras o'r cynnydd i ymrwymiad y cyflogwr	Swm ariannol bras (£000)
Gostyngiad o 0.5% yn y Gyfradd Ddisgowntio Wirioneddol	11%	41,210
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Cyflogau	3%	9,160
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Pensiwn	9%	31,372

14. Ymrwymadau cyfalaf

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Eiddo, peiriannau a chyfarpar		
Offer a pheiriannau	312	24
Offer trafnidiaeth	0	759
Offer TG	0	48
Strwythurau gweithredol	481	222
Cyfanswm	793	1,053
Asedau anniriaethol		
Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd	6	0
Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd	195	590
Cyfanswm	201	590

15. Ymrwymadau o dan brydlesi

Mae penderfynu a yw trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n dibynnu ar y defnydd o ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased, yn cael ei ystyried fel prydles.

Mae prydles gyllid yn un sy'n trosglwyddo risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased i'r prydlesai i raddau sylweddol. Prydles weithredol yw prydles heblaw prydles gyllid. Caiff prydlesi eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn IAS 17 (Prydlesi). Nid yw tir sy'n cael ei ddal o dan brydles gyllid yn cael ei ddibrisio.

Mae costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles ac yn cael eu dangos yn Nodyn 5.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar yr isaf o werth teg yr ased a brydlesir neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Caiff dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r prydleswr ei chofnodi. Caiff taliadau ariannol eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff cerbydau sy'n cael eu dal o dan brydles cyllid eu dibrisio dros dymor y brydles.

15.1 Prydlesi gweithredu

Nodir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	31 Mawrth 2017			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:				
O fewn blwyddyn	70	1,826	394	2,290
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	232	3,552	687	4,471
Ar ôl pum mlynedd	1,366	2,468	0	3,834
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	1,668	7,846	1,081	10,595
	31 Mawrth 2016			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:				
O fewn blwyddyn	92	1,763	424	2,279
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	295	4,548	496	5,339
Ar ôl pum mlynedd	1,562	1,696	0	3,258
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	1,949	8,007	920	10,876

15.2 Prydlesi Cyllid

	31 Mawrth 2017		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:			
O fewn blwyddyn	13	129	142
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	38	69	107
Ar ôl pum mlynedd	209	0	209
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	260	198	458

	31 Mawrth 2016		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:			
O fewn blwyddyn	13	260	273
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	38	198	236
Ar ôl pum mlynedd	209	0	209
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	260	458	718

16. Ymrwymadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i gontractau na ellir eu canslo nas adroddir amdanynt mewn man arall. Cyfanswm y taliadau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo iddynt ar 31 Mawrth 2017 yw:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	8,033	18,241
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	20,734	18,971
Ar ôl pum mlynedd	201	3,895
Cyfanswm	28,968	41,107

17. Yr hyn y gellir ei dderbyn o brydlesi

Caiff asedau a brydlesir i bartïon allanol o dan brydles weithredu eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol fel yr amlinellwyd yn Nodyn 7. Cyfrifir am incwm prydles gweithredu ar sail llinell syth ac mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol y gellir eu derbyn o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	726	697
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	2,243	2,474
Ar ôl pum mlynedd	6,341	6,540
Cyfanswm	9,310	9,711

18. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus	111	605
Hawliadau Contractwyr	0	0
Cyfanswm	111	605

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol ag IAS 37.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau digwyddiadol a ganlyn: -

Mae proses werthuso swyddi sydd gyda'r nod o greu un strwythur swyddi a graddau sy'n gweithio i bawb o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, bron a'i chwblhau. Bydd y cynllun yn adnabod iawndal i'r staff hynny lle bernir bod eu rôl i fod o radd uwch na'r hyn y maent yn cael eu talu ar hyn o bryd, os yw'n bodloni'r meini prawf penodol sydd wedi'u diffinio.

Mae cais yn cael ei wneud gan drydydd parti am y defnydd o gerrig gan CNC ac un o'i gyrff rhagflaenol Mae'r cais yn cael ei wrthwynebu i raddau helaeth ar y sail ei fod wedi ei wahardd trwy ddeddf a mae trafodaethau ar y gweill o ran y defnydd yn y cyfnod sydd heb ei wahardd.

19. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w adrodd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

20. Partion cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae CNC wedi cynnal trafodion perthnasol sylweddol â Llywodraeth Cymru fel rhan o'i fusnes arferol (cofnodir y cymorth grant a'r grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr) ac ag endidau eraill yr ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw eu rhiant-adran, sef Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

At hynny, mae CNC wedi cynnal gwahanol drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff eraill llywodraeth ganolog. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a CThEM.

Bwrdd neu Aelodau Gweithredol neu bartion cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid yw Aelodau'r Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodion â'r partion cysylltiedig hyn.

Rydym wedi dangos trafodion ar gyfer y flwyddyn lawn, gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu wedi gadael yn ystod y flwyddyn.

Sefydliad	Aelod	Natur y berthynas	Cyfanswm	Cyfanswm	Swm dyledus	Swm
			taliadau	incwm	gan CNC ar	dyledus i
			£'000	£'000	31 Mawrth	CNC ar 31
					2017	Mawrth 2017
					£'000	£'000
Prifysgol Aberystwyth	Emyr Roberts	Aelod o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg	0	5	0	0
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	Ruth Hall	Aelod o'r Bwrdd yng Nghymru a'r Cyngor Cenedlaethol	28	21	0	21
Prifysgol Caerdydd (Sefydliad Polisi i Gymru)	Ruth Hall	Llywodraethwr / Is-Gadeirydd	22	11	0	1
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Paul Williams	Cymrawd anrhydeddus	0	1	0	0
DEFRA: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a'r Cwmni Cefnogol	Diane McCrea/ Madeleine Havard	Aelod o fwrdd JNCC a chyfarwyddwr anweithredol o'r Cwmni Cefnogol				
DEFRA Pwyllgor Archwilio a Risg	Nigel Reader	Aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd JNCC				
	Nigel Reader	Aelod o Fwrdd JNCC yn rhinwedd ei swydd fel aelod o fwrdd Natural England.	8	0	0	0
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	Nigel Reader	Aelod dros dro a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.				
Groundwork Gogledd Cymru	Karen Balmer	Prif Weithredwr	6	0	0	0
Leonard Cheshire Disability	Elizabeth Haywood	Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr	0	1	0	0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Ruth Hall	Aelod o'r Cyngor	201	13	0	0
Natural England	Nigel Reader	Aelod anweithredol o'r bwrdd a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio	138	8	14	0
North East Wales Wildlife Ltd	Karen Balmer	Ymddiriedolwr	4	0	0	0
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Howard Davies	Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus	165	0	0	0
SP Energy Network Holdings Ltd	Elizabeth Haywood	Cyfarwyddwr Anweithredol	0	24	0	6
Prifysgol Abertawe	Emyr Roberts	Athro anrhydeddus	88	5	85	1
TGV Hydro Ltd	Chris Blake	Cyfarwyddwr	32	3	0	0

Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) wrth wraidd ein holl benderfyniadau busnes. Dros y blynyddoedd sydd i ddod, rydym am ddatblygu ein hunain yn sefydliad eithriadol o ran cynaliadwyedd a rheoli amgylcheddol yng Nghymru, yn enwedig yn y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir.

Ein ffocws yn ystod y flwyddyn hon fu:

- lleihau ein hól troed carbon;
- sicrhau bod ein system rheoli amgylcheddol¹ (EMS) yn cydymffurfio â safon amgylcheddol ddiwygiedig ISO14001:2015;
- parhau i ymgorffori ein system rheoli amgylcheddol yn niwylliant y sefydliad a chyfrannu at egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR);
- cyflenwi Prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- cyflawni achrediad UK Spill i fodloni gofynion cynllun galluogi rheoli digwyddiadau CNC

Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn wahanol i gamau neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Mae adrodd ehangach sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ar gael drwy gydol ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at Adrodd Integredig.

Crynodeb o Berfformiad

Eleni rydym wedi:

- cyrraedd ein targed i leihau ein hól troed carbon 5% mewn perthynas ag adeiladau a feddiannir, defnyddio ynni a theithio busnes;
- cael ardstiad i safon amgylcheddol ISO14001:2015 yn dilyn gwirio ac archwiliadau allanol annibynnol, gan arddangos ein hymrwymiad ein hunain i gyflawni'r safonau amgylcheddol uchaf posibl fel sefydliad;
- cadw Safon Sicr Coetiroedd y DU ar gyfer Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru a reolir gennym, ar ôl gwirio ac archwiliadau allanol annibynnol, sy'n ein galluogi i gynhyrchu coed a ardstiwyd gan FSC/PEFC² o Ystâd Goetiroedd Llywodraeth Cymru a reolir gennym;
- cael achrediad UK Spill am y tro cyntaf

¹ Mae cwmpas ein System Rheoli Amgylcheddol yn berthnasol i: "Gweithgareddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli cynaliadwy yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yng Nghymru"

² Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Fel y cefnogir gan ein hachrediad [Safon Sicr Coetiroedd y DU](#)

Tabl 1: Tabl crynhoi adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

Maes	Unedau	2015/16	2016/17	Newid
Allyriadau nwy tŷ gwydr ¹	Defnydd (tCO _{2e})	6,021	5,115	Gostwng
Ynni'r ystâd	Defnyddiwyd (miliwn kWh)	6.9	6.3	Gostwng
	Gwariant (£k)	657	776	Cynyddu
Gwastraff yr ystâd	Cynhyrchwyd (tunelli)	864	1,424	Cynyddu
	Gwariant (£k)	205	225	Cynyddu
Dŵr yr ystâd	Defnyddiwyd (m ³)	78,395	76,283	Gostwng
	Gwariant (£k)	39	32	Gostwng

Dengys Tabl 1 y newid perthynol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhagor o fanylion am bob un ar gael yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn. I grynhoi:

- cafodd allyriadau carbon cyffredinol yn 2016/17 eu gostwng 15.0% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol
- cwtogwyd 7.7% ar y defnydd ynni yn 2016/17 o'i gymharu â data 2015/16
- cynyddodd y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2016/17, a hynny'n bennaf am fod y gwaith trin carthion yng Nghoed y Brenin yn anweithredol drwy gydol y flwyddyn a bod gofyn symud 500 tunnell o garthion oddi ar y safle mewn tanceri er mwyn cydymffurfio â thrwydded gollwng y safle
- cwtogwyd 2.7% ar y dŵr a ddefnyddiwyd yn 2016/17 o'i gymharu â data 2015/16

Crynodeb o Strategaeth y Dyfodol


Y flwyddyn nesaf, hoffem:

- Leihau ein hól troed carbon ymhellach ac rydym wedi gosod targed i gwtogi 5% ar ein hallyriadau carbon deuocsid (tCO_{2e}) o adeiladau a feddiannwyd, teithio a defnydd dŵr yn seiliedig ar ddata 2016/17
- Cadw ardystiad mewn perthynas â Safon Sicr Coetiroedd y DU
- Gwella statws nodweddion dynodedig, mynediad a dehongli ar safleoedd gwarchoddedig a reolir gennym
- Lleihau allyriadau cyfartalog ceir yn fflyd CNC

¹ (Cwmpasau 1, 2 a 3 gan gynnwys teithio awyr/rheilffordd ac eithrio allyriadau y tu hwnt i'r cwmpasau)

Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr

Amlinellir isod ein hallyriadau nwy tŷ gwydr:



Cwtogwyd 15.0% ar yr allyriadau carbon cyffredinol yn 2016/17 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cwtogwyd 5.5% ar allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1, a hynny am fod timau gweithredol wedi defnyddio llai o ddiesel coch.

Cwtogwyd 18.8% ar allyriadau anuniongyrchol ynni Cwmpas 2, am fod llai o drydan wedi'i ddefnyddio mewn swyddfeydd ac adeiladau heb staff. Roedd y ffactor DEFRA ar gyfer allyriadau trydan yn 2016/17 yn is hefyd, a gyfrannodd at allyriadau is o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cwtogwyd 36.7% ar allyriadau anuniongyrchol eraill Cwmpas 3, er bod allyriadau ceir llogi a cherbydau llwyd wedi cynyddu; roedd y gostyngiad cyffredinol oherwydd y gostyngiad mewn allyriadau ceir prydles ar ôl tynnu cynllun ceir prydles CNC yn ôl.

Tabl 2: Allyriadau nwy tŷ gwydr (NTG)

Allyriadau nwy tŷ	2015/16	2016/17	Newid
Cwmpas 1: Allyriadau NTG uniongyrchol (tCO ₂ e)	2,999	2,835	Gostwng
Cwmpas 2: Allyriadau anuniongyrchol ynni (tCO ₂ e)	2,048	1,662	Gostwng
Cwmpas 3: Allyriadau NTG anuniongyrchol eraill (tCO ₂ e)	974	617	Gostwng
Cyfanswm yr allyriadau NTG gros (tCO₂e)	6,021	5,115	Gostwng
<i>Y tu hwnt i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	253	220	Gostwng

Sylwer: Nid yw'r data wedi'i wirio'n allanol – Sicrwydd Cyfyngedig.
(Byddai gwirio'r data'n allanol yn costio £5-10k y flwyddyn.)

Sylwer: Mae'r allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol eraill Cwmpas 3 yn cynnwys: teithio trên, teithio awyr, teithio fflyd lwyd, teithio ceir prydles, teithio ceir llogi, dŵr a gwastraff.

Sylwer: Nid yw allyriadau Cwmpas 3 o brynu nwyddau a gwasanaethau, defnyddio

agregau mewn adeiladu a defnyddio coed wedi'u cynnwys.

Lleihau a Rheoli Gwastraff

Rydym wedi parhau i wella nifer y ffrydiau gwastraff y gallwn adrodd amdanynt yn unol â'n targed i fesur ac adrodd am holl ffrydiau gwastraff CNC. Cwtogwyd 9.4% ar y gwastraff swyddfa a anfonwyd i safle tirlenwi yn 2016/17 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd y cynnydd mwyaf mewn gwastraff oherwydd bod y gwaith trin carthion yng Nghoed y Brenin yn anweithredol drwy gydol y flwyddyn a bod gofyn symud 500 tunnell o garthion oddi ar y safle mewn tanceri i gydymffurfio â thrydded gollwng y safle.

Tipio anghyfreithlon yw unrhyw wastraff sy'n cael ei adael yn anghyfreithlon gan drydydd partio ar dir a reolwn; ar ôl iddo gael ei adael, ni yw'r perchenogion a ni sy'n gyfrifol am y gwaredu a'r costau cysylltiedig.

Gellir priodoli'r cynnydd mewn tipio anghyfreithlon i'r ffaith ein bod bellach yn cofnodi gwastraff tipio anghyfreithlon yn rhanbarthau'r De-ddwyrain a'r De-orllewin, ac nid oedd y data hwn ar gael mewn blynyddoedd blaenorol.

Tabl 3: Gwastraff a Gynhyrchwyd

Gwastraff a gynhyrchwyd	Unedau	2015/16	2016/17	Newid
Gwastraff swyddfa a anfonwyd i Safle Tirlenwi	Defnydd (tunelli metrig)	266	241	Gostwng
	Defnydd (tCO2e)	122	101	Gostwng
	Gwariant (£k)	25	22	Gostwng
Gwastraff swyddfa a gafodd ei Ailgylchu / Ailddefnyddio	Defnydd (tunelli)	451	934	Cynyddu
	Defnydd (tCO2e)	9	20	Cynyddu
Gwastraff swyddfa a gafodd ei Losgi	Defnydd (tunelli)	14	15	Cynyddu
	Defnydd (tCO2e)	< 1	< 1	Cynyddu
Gwastraff yn sgil tipio anghyfreithlon	Defnydd (tunelli)	133	234	Cynyddu
	Defnydd (tCO2e)	32	65	Cynyddu
Cyfanswm y gwastraff	Defnydd (tunelli)	864	1,424	Cynyddu
	Defnydd (tCO2e)	164	186	Cynyddu
	Gwariant (£k)	205	225	Cynyddu

Dŵr

Gostyngodd y dŵr a ddefnyddiwyd yn ein swyddfeydd o'r prif gyflenwad 13.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein dwyster defnydd dŵr islaw'r cyfartaledd ar gyfer defnydd dŵr², ac rydym wedi gosod targed o ostwng 5% ymhellach ar gyfer 2017/18.

Tynnu'r dŵr a ddefnyddiwyd i weithredu ein safle deorfa bysgod oedd y defnydd mwyaf sylweddol o dynnu dŵr eleni, sef 62,689 m³. Tynnwn ddŵr hefyd yn safleoedd rhai o'n canolfannau croeso a safleoedd anghysbell lle nad oes prif gyflenwad dŵr ar gael.

Tabl 4: Defnyddio Dŵr

Defnydd adnodd – Dŵr ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	Newid
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd swyddfa	Defnydd (m ³)	6,830	5,923	Gostwng
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd heblaw swyddfeydd:	Defnydd (m ³)	5,555	5,488	Gostwng
- Prif gyflenwad	Defnydd (m ³)	65,981	64,850	Gostwng
- Tynnu dŵr	Defnydd (m ³)	29	22	Gostwng
- Dŵr glaw				
Dwyster defnyddio dŵr (at ddefnydd Swyddfa)	m ³ y pen (cywerth ag amser llawn)	3.4	3.3	Gostwng
Dŵr a gyflenwyd: Cyfanswm	Defnydd (m ³)	78,395	76,283	Gostwng
	Gwariant (£k)	39	32	Gostwng
	Defnydd (tCO _{2e})	27	26	Gostwng

² Cyfartaledd = 4m³ y pen cywerth ag amser llawn (Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Dŵr a meincnodau i swyddfeydd a gwestai .C657 CIRIA www.ciria.org)

Ynni

Mae ein defnydd ynni (sy'n cynnwys trydan, prif gyflenwad nwy, LPG, olew gwresogi a biomas) mewn adeiladau wedi'u meddiannu a heb eu meddiannu wedi gostwng eleni. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi cynhyrchu 1.4% o'n defnydd ynni ein hunain o bŵer solar ar y safle. Cynhyrchodd ein gosodiad adnewyddadwy mwyaf (sef paneli ffotofoltäig yn swyddfa Maes-y-ffynnon ym Mangor) 24,649 kWh yn ystod y flwyddyn. Anelwn at gynyddu nifer y gosodiadau adnewyddadwy safle ar ein hadeiladau ein hunain yn 2017/18 gan ddefnyddio cyllid o gynllun buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru.

Tabl 5: Defnydd Ynni

Defnydd adnoddau - Ynni ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	Newid
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd wedi'u meddiannu	Defnydd (kwh)	5,550,100	5,209,072	Gostwng
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,011	1,723	Gostwng
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd heb eu meddiannu	Defnydd (kwh)	1,319,745	1,131,651	Gostwng
	Defnydd (tCO ₂ e)	610	466	Gostwng
Ynni adnewyddadwy: Hunangynhyrchwyd	Cynhyrchwyd (kwh)	81,713	76,649	Gostwng
	Defnydd (% o ynni a ddefnyddiwyd)	1.4%	1.4%	Dim Newid
Ynni a ddefnyddiwyd: Cyfanswm	Defnydd (kwh)	6,869,845	6,340,723	Gostwng
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,621	2,189	Gostwng
	Gwariant (£k)	657	777	Cynyddu

Caffael Cynaliadwy

Mae caffael cynaliadwy yn ystyried yr effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ynghlwm wrth ein penderfyniadau prynu. Mae'n galluogi ein sefydliad i fodloni ei angen am nwyddau a gwasanaethau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan, gan hefyd roi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig Cymru. Adlewyrchir yr egwyddorion allweddol hyn yn ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy 2015-2017, ac adroddir am ein cynnydd drwy gydol y flwyddyn yn ein Dangosfwrdd Cynllun Busnes.

Rydym wedi datblygu Cynllun Ymdrin â'r Farchnad sy'n galluogi archebwyr i gwestiynu'r angen i brynu, ac i ystyried yn ymarferol effaith eu pryniant a'r holl opsiynau sydd ar gael cyn mynd i gontract. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gynaliadwyedd, sy'n archwilio effaith y pryniant ar sail cost oes gyfan, ac sy'n nodi rheolaethau lliniaru.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn meithrin y dull hwn ymhellach i ystyried effaith amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol caffaeliad drwy integreiddio ac unioni ymhellach â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gan hefyd ystyried risg, cwmpas a dylanwad. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda chyflenwyr i sicrhau eu hymrwymiad i gynaliadwyedd, a bydd yn helpu i dargedu ymhle y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau. Byddwn hefyd yn parhau i ddwyn buddion cymunedol a gyflwynir drwy ddyfarnu contractau allweddol, ac yn adrodd am y canlyniadau a geir.

Teithio

Mae ein hanghenion teithio yn cynnwys: gweithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, ymdrin â llifogydd a chyfarfodydd safle. Eleni ar y cyfan rydym wedi teithio 8,158,327 o filltiroedd, sy'n 11.1% o ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 6: Manylion teithio

Teithio yn ôl cerbyd	Unedau	2015/16	2016/17	Newid
Cerbydau bathodyn	Milltiroedd a deithiwyd	5,833,839	6,064,812	Cynyddu
	Gwariant (£k)	800	768	Gostwng
Cerbydau prydles	Milltiroedd a deithiwyd	1,649,345	191,730	Gostwng
	Gwariant (£k)	162	18	Gostwng
Cerbydau llwyd ³	Milltiroedd a deithiwyd	552,343	639,064	Cynyddu
	Gwariant (£k)	244	287	Cynyddu
Llogi	Milltiroedd a deithiwyd	256,654	322,505	Cynyddu
	Gwariant (£k)	59	74	Cynyddu
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	865,693	864,366	Gostwng
	Gwariant (£k)	221	223	Cynyddu
Awyr	Milltiroedd a deithiwyd	18,898	71,057	Cynyddu
	Gwariant (£k)	6	19	Cynyddu
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	1,944	2,346	Cynyddu
	Gwariant (£k)	< 1	< 1	Cynyddu
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	4,475	2,447	Gostwng
	Gwariant (£k)	1	1	Gostwng
Cyfanswm y teithio cerbyd	Milltiroedd a deithiwyd	9,183,191	8,158,327	Gostwng
	Gwariant (£k)	1,493	1,390	Gostwng

Lleihawyd y milltiroedd cyffredinol oherwydd llai o deithio gan geir prydles ar ôl tynnu'n ôl gynllun ceir prydles CNC. Trosglwyddwyd rhywfaint o filltiroedd y ceir prydles i filltiroedd ceir bathodyn, ceir llwyd a cheir llogi ond arbedwyd swmp y milltiroedd.

Ar hyn o bryd, mae cost cerbydau bathodyn yn cynnwys tanwydd yn unig.

Cynyddodd milltiroedd awyr yn sylweddol am fod tri aelod o staff wedi teithio i Japan yn 2016/17.

Byddwn yn parhau i gwtogi ar deithio gan ddefnyddio ein coeden penderfyniad teithio a thrwy ddefnyddio mwy o gynadledda Skype, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach.

Digwyddiadau amgylcheddol

Cafwyd deg digwyddiad amgylcheddol o ganlyniad i'n gwaith neu waith ein contractwyr a deg methiant agos. Mae hyn yn cymharu â deunaw digwyddiad amgylcheddol a thri methiant agos yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ni ddosbarthwyd yr un o'r digwyddiadau hyn yn un difrifol yn ôl y cynllun dosbarthu digwyddiadau amgylcheddol a gymhwyswn i ddigwyddiadau amgylcheddol. Lle ceir digwyddiadau o ganlyniad i'n gwaith (neu waith ein contractwyr), byddwn yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achos gwreiddiol y digwyddiad.

³ Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat y staff eu hunain.

Newid ymddygiad

Yn rhan o'n gwaith i ymgorffori ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn niwylliant ein sefydliad, rydym wedi cyflenwi nifer o gyrsiau hyfforddi i'r staff. Ymhlith y meysydd hyfforddi fu hybu ymwybyddiaeth am ein gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, caffael coed ac ymateb i ddigwyddiadau.

Llywodraethu ac Adrodd

Adroddwn am ein hól troed carbon yn rhan o'n fframwaith perfformiad, yr adroddir amdano gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn gyhoeddus agored) dair gwaith bob blwyddyn.

Casglwn y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn drwy gyfuniad o ddarllen mesuryddion (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. pryniannau cerdyn tanwydd) a data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trê), gan ddefnyddio'r ffynonellau cywiraf sydd ar gael i ni. Rydym wedi gwella ein gwaelodlinau a'n hadrodd am ddata biomas a gwastraff yn yr adroddiad hwn. Ceisiwn hefyd ddefnyddio cyn lleied â phosibl o amcangyfrifon yn ein hadroddiadau, ac rydym yn gweithio i wella yn y maes hwn.

Prosiect Carbon Bositif

Mae Prosiect Carbon Bositif CNC yn edrych y tu hwnt i'r allyriadau carbon yr adroddwn amdanynt ar hyn o bryd i werthuso statws carbon net CNC. Rydym bellach wedi cwblhau asesiad o'r statws carbon net sy'n cynnwys ein holl allyriadau corfforaethol gan ddefnyddio data sydd ar gael, neu amcangyfrifon lle mae angen, ac wedi modelu cynhyrchion ar gyfer y carbon a ddaliwyd ac a storiwyd yn ein coedwigoedd a'n mawndiroedd.

Wrth gyfrif am allyriadau nwy tŷ gwydr a dal a storio carbon ar draws holl ystâd CNC, mae'r cyfrifiad yn ychwanegu at yr wybodaeth o'n system rheoli amgylcheddol er mwyn deall ôl troed carbon y sefydliad yn ei ystyr ehangach e.e. allyriadau o brynu nwyddau a gwasanaethau, cynhyrchu coed ac adeiladu. Cyhoeddir adroddiad sy'n egluro'r dull a'r cyfrifiad yn hydref 2017.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r prosiect wedi cyflenwi cyfres o brosiectau arddangos, gan gynnwys cerbydau trydanol a seilwaith gwefru, ynni adnewyddadwy ar asedau risg llifogydd, adfer mawndir, plannu coetiroedd ac asesu a rheoli carbon mewn fframweithiau caffael mawr. Gwnaethpwyd hyn oll i asesu eu modd cyflenwi ac i nodi'r gwersi a ddysgwyd y gellir eu rhannu ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Mae'r prosiect hefyd wedi gwerthuso'r amrywiaeth o gyfleoedd lliniaru posibl i leihau ein heffaith carbon fel sefydliad, gan geisio cyfraniad gan staff a sefydliadau eraill. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r mesurau hyn i nodi'r rheini a ddylai fod yn flaenoriaethau yn y dyfodol i'r sefydliad ar sail eu cost, eu potensial lleihau carbon a buddion eraill. Bydd y mesurau hyn yn cael eu rhaglennu wedyn yn gynllun tair i bum mlynedd i'w weithredu yn y dyfodol o 2018 ymlaen i ymgorffori rheoli carbon ar draws y sefydliad. Bydd y cynllun hwn yn bennaf at ddefnydd mewnol ac yn cael ei gwblhau tua diwedd 2017.

Bydd y prosiect yn rhannu ein dull a'n profiadau drwy gyfres o ddigwyddiadau tua diwedd 2017 i ledaenu ein harfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd mewn rheoli carbon ar draws sector cyhoeddus Cymru i gynorthwyo i gyrraedd nodau Cymru ar gyfer datgarboneiddio cyflymach.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhychu'r dogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw.